

MESUR DYSGU A SGILIAU (CYMRU) 2008 ARFAETHEDIG

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS), Llywodraeth Cynulliad Cymru ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Datganiad yr Aelod

Yn fy marn i byddai darpariaethau'r Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008, yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

John Griffiths AC

Dirprwy Weinidog dros Sgiliau

Mawrth 2009

CYNNWYS

RHAN 1

1. Disgrifiad
2. Cefndir Deddfwriaethol
3. Pwrpas ac effaith bwriadedig y ddeddfwriaeth
4. Ymgynghoriad
5. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth
6. Aseiad Effaith Rheoleiddiol

RHAN 2 – ASESU EFFAITH

7. Opsiynau
8. Costau a buddiannau
9. Crynodeb o Amcangyfrifon Costau
10. Aseu'r Gystadleuaeth
11. Adolygu ar ôl gweithredu

ATODIAD 1 – Nodiadau Esboniadol

1. Disgrifiad

1.1 Bydd y Mesur arfaethedig fel y'i diwygiwyd yn ystod gweithrediadau Cam 2 yn creu cyfraith ar gyfer addysg disgyblion ysgol a phobl ifanc mewn addysg neu hyfforddiant 14-19¹ sydd wedi'u cofrestru mewn ysgolion a gynhelir a Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru. Mae'n diwygio'r gyfraith ar gyfer dysgwyr yng Nghymru mewn addysg a hyfforddiant 14-19 oed, a osodwyd yn Neddf Addysg 2002 a Deddf Dysgu a Medrau 2000. Mae hefyd yn diwygio Deddf Addysg 1997.

1.2 Mae'r darpariaethau statudol yn darparu modd o osod fframwaith cyfreithiol fydd yn adlewyrchu'r polisi Llwybrau Dysgu 14-19 ac yn darparu modd o ddatblygu'r fframwaith cyfreithiol hwnnw wrth i'r polisi ddatblygu.

1.3 Prif bwrpas y Mesur hwn yw creu hawl i ddysgwyr 14-19 oed yng Nghymru i ddewis dilyn cwrs astudio o gwricwla ardal leol. Bydd cwricwla ardal Leol yn cynnwys amrywiaeth eang o opsiynau astudio, fydd yn academiaidd a galwedigaethol, ar draws y meysydd dysgu². Bydd yn bosib i rai 14-19 oed i astudio y tu allan i'w prif leoliadau dysgu.

1.4 Bydd y Mesur yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau a fydd yn pennu isafswm nifer y cyrsiau astudio y dylid eu cynnwys o fewn y cwricwlwm lleol cyfan. Bydd rheoliadau hefyd yn pennu isafswm nifer neu faint y cyrsiau astudio galwedigaethol i'w cynnwys o fewn cwricwlwm lleol.

1.5 Mae'r Mesur, yn nodi ar ba sail y gall Pennaeth neu Benadur benderfynu, mewn rhai achosion, nad oes gan ddysgwr yr hawl i ddilyn cwrs mae wedi dewis ei astudio. Mae'r Mesur hefyd yn caniatáu gosod rheoliadau mewn perthynas â'r penderfyniadau hyn. Mae'r Mesur yn nodi y bydd gan Weinidogion Cymru'r pŵer i ddarparu ar gyfer system apeliadau mewn perthynas â phenderfyniadau ynghylch hawliau. Bydd Gweinidogion Cymru'n gallu darparu ar gyfer apeliadau (gan gynnwys y prosesau i'w dilyn a'r terfynau amser ar gyfer gwneud penderfyniadau) yn erbyn penderfyniadau i beidio â chaniatáu i ddisgybl ddilyn cwrs astudio.

1.6 Bydd y Mesur yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Addysg Lleol yng Nghymru mewn perthynas â dysgwyr 14-16 oed, ac ar Weinidogion Cymru ar gyfer dysgwyr 16-19 oed, i ffurfio cwricwla ardal leol cydweithredol. Gosodir dyletswydd ar Gyrrff Llywodraethol a Phenaethiaid Ysgolion a Gynhelir a Chyrrff Llywodraethol a Phenaduriaid Sefydliadau Addysg Bellach i gynorthwyo'r Awdurdod Addysg Lleol neu Weinidogion Cymru, fel bo'n addas, i gynllunio cwricwlwm lleol ar gyfer ardal, gan roi ystyriaeth i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir a chan gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan Weinidogion Cymru. Bydd Awdurdodau Addysg Lleol hefyd dan yr

¹ Hynny yw rhai o 14 oed hyd at (ond heb gynnwys) eu penblwydd yn 19eg.

² Y meysydd dysgu yw: (a) mathemateg, gwyddoniaeth a thechnoleg, (b) busnes, gweinyddiaeth a'r gyfraith, (c) gwasanaethau i bobl, (d) celfyddydau, cyfryngau, diwylliant ac ieithoedd, ac (e) dyniaethau, gwyddorau cymdeithasol a pharatoi ar gyfer bywyd a gwaith.

un ddyletswydd i gynorthwyo Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r cwricwla lleol ar gyfer y dysgwyr hynny sydd rhwng 16 – 19 oed.

1.7 Mae'r Mesur yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Addysg Lleol a Chyrff Llywodraethol Ysgolion a Sefydliadau o fewn y sector Addysg Bellach i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y nifer mwyaf posib o gyrsiau astudio ar gael o fewn cwricwla lleol. Mae'r ddyletswydd hon yn cynnwys dyletswydd i geisio sicrhau trefn gydweithredol os ystyrir y byddai gwneud hynny'n golygu bod mwy o gyrsiau ar gael. Mae darpariaethau'r adran hon o'r Mesur yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau a chyfarwyddiadau i gynorthwyo i gyflawni'r nod hwn.

1.8 Mewn perthynas â gwasanaethau cymorth i ieuencid, mae'r mesur yn gwneud darpariaeth fel bod Awdurdodau Lleol a Chyrff Llywodraethol Ysgolion a Gynhelir a Sefydliadau Addysg Bellach yn gallu mynd i gostau, cyflogi staff, ac ymrwymo i gytundebau ar gyfer cyflenwi nwyddau a gwasanaethau.

2. Cefndir Deddfwriaethol

2.1 Darparodd Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda fframwaith pŵer ar gyfer Cymru dan Adran (178(1) (d),(g) a (h). Trosglwyddwyd y pŵer gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Trosglwyddo Pwerau Fframwaith) Gorchymyn 2007 er mwyn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu trwy Fesur mewn perthynas â meysydd sy'n berthnasol i'r polisi Llwybrau Dysgu 14-19.

2.2 Mae'r pwerau galluogi wedi'u cynnwys yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 5, Maes 5: Addysg a Hyfforddiant, Materion 5.4, 5.7 a 5.8. Mae hyn yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i basio'r Mesur Cynulliad hwn.

Mater 5.4

Darpariaeth ynghylch y cwricwlwm mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau addysg lleol.

Mater 5.7

Darpariaeth ynghylch yr hawl i addysg gynradd, uwchradd ac addysg bellach a hyfforddiant.

Mater 5.8

Darpariaeth ynghylch darparu gwasanaethau er mwyn annog, galluogi neu gynorthwyo pobl-

- (a) i gymryd rhan effeithiol mewn addysg neu hyfforddiant,
- (b) i fanteisio ar gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth, neu
- (c) i gymryd rhan effeithiol ym mywyd eu cymunedau.

3. Pwrpas ac Effaith Bwriadedig y Ddeddfwriaeth

3.1 Mae'r Mesur hwn yn adeiladu ar fwriad y polisiau a osodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â'r Llwybrau Dysgu 14-19 yn 'Y Wlad sy'n Dysgu: Llwybrau Dysgu 14-19 2002' a 'Y Wlad Sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith 2006' sef: *'95 y cant o bobl ifanc erbyn cyrraedd 25 oed i fod yn barod ar gyfer cyflogaeth medr uchel neu addysg uwch erbyn 2015'*.

3.2 Bydd Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008 yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni'r amcanion a nodir yn y dogfennau uchod trwy greu sylfaen statudol ar gyfer Llwybrau Dysgu 14-19. Mae gan y polisi Llwybrau Dysgu'r potensial i drawsffurfio'r ddarpariaeth a chymorth i ddysgwyr, i godi lefel cyrhaeddiad a chyflawniad, i baratoi pobl ifanc ar gyfer cyflogaeth medr uchel neu addysg uwch ac i alluogi Cymru i gystadlu yn Ewrop yn yr 21ain ganrif. Bydd gosod yr egwyddorion sylfaenol hyn o fewn fframwaith cyfreithiol yn sicrhau bod y polisiau hyn yn cael eu gweithredu mewn ffordd gyson. Bydd hyn er budd dysgwyr 14-19 oed ar draws Cymru. Mae'r polisi Llwybrau Dysgu'n defnyddio cyfuniad o 6 elfen allweddol;

- Llwybrau Dysgu unigol i gwrdd ag anghenion pob dysgwr;
- Hyblygrwydd a dewis ehangach o raglenni a dulliau dysgu o ddewislen opsiynau gydweithredol;
- Craidd Dysgu sy'n mynd o 14 drwedd i 19 lle bynnag mae pobl ifanc yn dysgu sy'n cynnwys sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth, agweddau a gwerthoedd a phrofiadau cyffredin;
- Cymorth Anogwr Dysgu;
- Mynediad i gymorth personol;
- Cyngor a chyfarwyddyd gyrfa diduedd.

3.3 Bydd y cyfuniad o'r elfennau hyn yn sicrhau bod dysgwr yn derbyn cydbwysedd priodol o brofiadau dysgu sy'n cwrdd â'i anghenion unigol yn y ffordd orau. Mae elfennau statudol allweddol y polisi hwn yn golygu creu cwricwla lleol sy'n cynnwys amrywiaeth eang o gyrсияu a chyfleoedd ynghyd â hawl dysgwyr i ddewis gyrсияu astudio o gwricwlwm lleol. Gellir cyflwyno gyrсияu y tu allan i leoliad dysgu arferol y dysgwyr. Mae hefyd yn rhoi mwy o bwerau i awdurdodau lleol i ddarparu dysgwyr gyda'r gefnogaeth a'r arweiniad sy'n angenrheidiol er mwyn iddyn nhw gyflawni eu potensial yn llawn.

3.4 Mae'r prif faterion mae'r Mesur yn mynd i'r afael â nhw wedi'u hamlinellu isod.

3.5 Darparu Cwricwlwm ar gyfer rhai 14-19

3.5.1 Sicrhau hawl dysgwyr i amrywiaeth o opsiynau o gwricwla lleol gan gynnwys opsiynau y tu allan i'w prif leoliadau dysgu.

Gellir ond sicrhau'r hawl i amrywiaeth eang o opsiynau ar draws Cymru gyfan trwy gyfrwng Mesur Cynulliad. Yn absenoldeb unrhyw Fesur, gallai'r posibiladau o ran mynediad i'r cwricwla lleol a ragwelir fod yn gyfyngedig ac yn annigonol. Ni ellir gwarantu y byddai'r ddarpariaeth yn cwrdd ag anghenion dysgwyr unigol mewn ffordd foddhaol ledled Cymru oherwydd byddai gan ddarparwyr mewn rhai ardaloedd yr opsiwn o eithrio o'r polisi Llwybrau Dysgu 14-19 gan olygu bod dysgwyr ar eu colled.

3.5.2 Gosod dyletswydd ar Awdurdodau Addysg Lleol a chyrrff llywodraethol ysgolion a sefydliadau Addysg Bellach i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y nifer fwyaf o gyrsiau ar gael ar y cwricwlwm lleol ar gyfer eu hardal. Mae'r ddyletswydd i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau'r ddarpariaeth orau'n cynnwys dyletswydd i geisio sicrhau trefn gydweithredol os ystyrir y byddai hynny'n golygu bod mwy o gyrsiau ar gael.

Bydd angen i Ysgolion a sefydliadau addysg bellach gydweithio er mwyn sicrhau eu bod yn cwrdd â'r anghenion o ran ffurfio'r cwricwla lleol. Bydd darpariaeth effeithiol ac effeithlon o ddewisiadau eang ar gyfer dysgwyr ar y ffurf cwricwla lleol a ragwelir yn hyrwyddo mwy o gydweithrediad rhwng darparwyr dysgu.

Pwrpas y darpariaethau yw herio ysgolion a sefydliadau addysg bellach i gyflawni mwy na'r gofyniad lleiaf lle bo'n briodol. Mae'n gosod dyletswydd ar awdurdodau addysg lleol a chyrrff llywodraethol ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y nifer fwyaf o gyrsiau ar gael ar y cwricwlwm lleol. Fel rhan o'r ddyletswydd honno, rhaid iddynt gydweithredu os ydy hynny'n golygu bod mwy o gyrsiau ar gael ar gwricwla lleol.

3.5.3 Sicrhau mynediad i amrywiaeth eang o brofiadau o'r Craidd Dysgu.

Bydd y Craidd Dysgu'n gymwys ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru o 14 i 19 oed. Mae'n cynnwys y gofynion lleiaf yn ogystal ag ychwanegiadau.

Fel gofyniad lleiaf, mae'n cynnwys y sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth, agweddau, gwerthoedd a phrofiadau sydd eu hangen ar ddysgwyr i'w paratoi ar gyfer dysgu pellach, cyflogaeth, cyflawniad personol a'u cyfraniad i'n cymdeithas ddwyieithog ac amrywiol, waeth pa Lwybr Dysgu mae'r dysgwr yn dewis ei ddilyn.

Dylai dysgwyr hefyd gael mynediad i ychwanegiadau i'r gofynion lleiaf er mwyn datblygu eu dysgu craidd ar gyfer y llwybr maent wedi'i ddewis a/neu er mwyn cyflawni diddordeb fydd yn helpu cyfoethogi eu bywydau.

Bydd gan ddysgwyr yr hawl hefyd i amrywiaeth eang o brofiadau a gweithgareddau fydd yn helpu eu galluogi i ddatblygu Sgiliau Allweddol.

3.5.4 Y ddarpariaeth i gynnwys diffiniad o'r ystod oedran dan sylw.

Byddai hyn yn caniatáu i sefydliadau Addysg Bellach a darparwyr dysgu seiliedig ar waith, i gynnig darpariaeth ar y cyd ar gyfer dysgwyr 14-16 yn ogystal â darpariaeth ar gyfer dysgwyr na fydd o bosib wedi cwblhau eu hastudiaethau erbyn cyrraedd 19 oed.

3.6 Cymorth i Ddysgwyr

3.6.1 Mae 6 elfen y polisi Llwybrau Dysgu yn cyd-berthyn i'w gilydd a gellir ond cyrraedd y nod o sicrhau bod 'dysgwr yn derbyn cydbwysedd priodol o brofiadau dysgu sy'n cwrdd â'i anghenion unigol yn y ffordd orau' os ydy'r dysgwyr yn derbyn y lefel angenrheidiol o gymorth yn ystod eu datblygiad.

3.6.2 Mae cymorth Anogwr Dysgu'n hanfodol ar gyfer dysgwyr, p'un ai darperir hwnnw gan unigolyn penodol, neu gan dîm o bobl, er mwyn darparu'r cymorth sylweddol sydd ei angen ar ddysgwyr:

1. I'w cynorthwyo i ddatblygu sgiliau dysgu
2. I wneud y defnydd gorau o, a datblygu eu harddulliau dysgu
3. I ddatblygu hyd yr eithaf mewn amryw o feysydd deallusrwydd, gan gynnwys deallusrwydd emosiynol.

3.7 Amcanion y Mesur yw:

- gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol yng Nghymru i ffurfio cwricwla lleol ar gyfer dysgwyr 14-16 oed, ac ar Weinidogion Cymru ar gyfer dysgwyr 16-19 oed sy'n cynnwys ystod o opsiynau i'w dewis ar draws y meysydd dysgu penodol;
- galluogi Gweinidogion Cymru i bennu isafswm nifer y cyrsiau astudio y gellir eu cynnwys o fewn cwricwlwm lleol, i bennu'r maes dysgu penodol y mae cwrs astudio yn perthyn iddo ac i bennu isafswm nifer y cyrsiau astudio galwedigaethol i'w cynnwys mewn cwricwlwm lleol;
- creu'r hawl i ddisgyblion mewn Ysgolion a Gynhelir i ddewis dilyn cyrsiau astudio o gwricwlwm ardal leol;
- nodi ar ba sail y gall Pennaeth/Penadur benderfynu nad oes gan ddisgybl yr hawl i ddilyn cwrs mae wedi'i ddewis a chaniatáu gwneud rheoliadau mewn perthynas â'r penderfyniadau hyn;
- darparu ar gyfer proses apeliadau mewn perthynas â phenderfyniadau a wneir ynghylch hawliau;
- gosod dyletswydd ar Gyrrff Llywodraethol a Phenaethiaid Ysgolion a Gynhelir a Chyrrff Llywodraethol a Phenaduriaid y sector Addysg Bellach i gynorthwyo Awdurdod Addysg Lleol i gynllunio cwricwla ardal leol, gan roi ystyriaeth i unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd a chan gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddwyd gan Weinidogion Cymru;

- sicrhau cynnwys y lefel uchaf posib o gyrsiau astudio o fewn cwricwla lleol trwy gydweithrediad rhwng Cyrff Llywodraethol Ysgolion a Gynhelir a Sefydliadau Addysg Bellach, ac Awdurdodau Addysg Lleol er mwyn darparu amrywiaeth eang o opsiynau astudio;
- galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau a chyfarwyddiadau mewn perthynas â chydweithio a chydweithredu;
- rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ddiwygio'r meysydd dysgu;
- galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn perthynas â cheisiadau a phenderfyniadau wrth bennu lleoliad dysgu arweiniol disgybl

3.8 Esboniad o'r Darpariaethau

Esbonnir y darpariaethau sydd yn y Mesur yn y Nodiadau Esboniadol yn Atodiad 1.

3.9 Cymhwysiad

Bydd y Mesur yn gymwys ar gyfer Cymru gyfan

4. Ymgynghoriad

4.1.1 Dechreuodd yr ymgynghoriad ar y cyfnod 14-19 i bob pwrpas gyda 'Y Wlad Sy'n Dysgu: Dogfen Ymbaratoi' ym mis Medi 2001. Darparodd y ddogfen ymgynghorol 'Y Wlad Sy'n Dysgu : Llwybrau Dysgu 14-19' a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Tachwedd 2002 bosibiliadau sylweddol ar gyfer ymgynghoriad a thrafodaeth ar y polisi hwn. Cefnogwyd y broses o ymgynghori gyda chyfres o gynadleddau rhanbarthol; trwy sefydlu gweithgorau cynrychioliadol a gwaith maes gan staff Llywodraeth Cynulliad Cymru. Cyhoeddwyd y Canllawiau cyntaf ar gyfer Llwybrau Dysgu 14-19 ym mis Gorffennaf 2004, ac fe'u diweddarwyd ym mis Ebrill 2006. Cyhoeddwyd canllawiau pellach ar agweddau penodol o'r Llwybrau Dysgu megis cymorth Anogwyr Dysgu.

4.1.2 Dechreuodd yr ymgynghoriad swyddogol ar y Cynigion ar gyfer Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008 ar 15fed Ionawr 2008 a chaeodd ar 29 Ebrill 2008. Derbyniwyd 93 o ymatebion gan ystod o randdeiliaid. Bu ymgynghori'n cymryd lle hefyd yn ystod ymgynghoriadau 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru' ac, yn ogystal, cynhaliwyd cyfres o ddiwyddiadau ymgynghori gan bob Rhwydwaith. Defnyddiwyd yr ymatebion a'r adborth a gafwyd fel arweiniad at y newidiadau yn y Mesur arfaethedig.

4.1.3 Serch bod yr ymgynghoriad am gael barn benodol ar y Mesur arfaethedig, manteisiodd nifer o'r ymatebwyr ar y cyfle i wneud sylwadau mwy cyffredinol am y polisi oedd yn sylfaen i'r Llwybrau Dysgu 14-19 a gweithredu'r polisi hwnnw'n ymarferol. O ganlyniad ychydig iawn o sylwadau uniongyrchol a gafwyd ynghylch newidiadau angenrheidiol i'r Mesur.

4.1.4 Yn gyffredinol, roedd yna gefnogaeth i'r egwyddor o greu deddfwriaeth i gynorthwyo'r broses o weithredu'r polisi, gyda chefnogaeth arbennig ar gyfer rhoi parch cyffelyb i'r llwybrau galwedigaethol. Roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod angen mwy o eglurder mewn rhai meysydd, a lle'r oedd greu deddfwriaeth yn berthnasol, er enghraifft, wrth bennu ar ba sail y dylid colli hawliau, gwnaed newidiadau i'r Mesur. Yn y rhan fwyaf o achosion, fodd bynnag, bydd y canllawiau a gynhyrchir i gynorthwyo'r broses o weithredu'r polisi'n ddull mwy priodol o sicrhau bod darparwyr yn derbyn yr wybodaeth ymarferol angenrheidiol. Mae adroddiad cryno a'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Roedd y Mesur arfaethedig yn amodol ar broses graffu o ran egwyddorion cyffredinol gan y Pwyllgor Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) Arfaethedig a sefydlwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Cyhoeddodd Pwyllgor Cam 1 ei adroddiad ym mis Rhagfyr 2008 gan wneud nifer o argymhellion. Yn dilyn y sesiwn lawn ar Ragfyr 9fed 2008 symudodd y Mesur arfaethedig i Gam 2. Ystyriodd Pwyllgor Cam 2 fanylion y Mesur arfaethedig ac unrhyw welliannau a gynigiwyd gan Aelodau'r Cynulliad.

4.2 Newidiadau allweddol i'r Mesur Arfaethedig

4.2.1 Ymgynghoriad

Nodir isod y prif newidiadau a wnaed i'r Mesur yn dilyn y broses ymgynghori. Dylid nodi, lle mae gwelliannau a wnaed yn ystod Cam 2 wedi effeithio ar y newidiadau i'r Mesur arfaethedig a wnaed mewn ymateb i'r ymgynghoriad, bod hynny wedi'i nodi o fewn y troednodiaidau:

- *Penderfyniad pennaeth neu benadur ynghylch hawl.*

Roedd yna gefnogaeth eang i'r egwyddor mai'r Pennaeth neu'r Penadur ddylai wneud penderfyniadau ynghylch hawliau. Cafwyd, fodd bynnag, geisiadau am eglurder ynghylch ar ba sail y gwneir penderfyniadau o'r fath. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae ar ba sail y gall pennaeth neu benadur benderfynu nad oes gan ddisgybl/myfyriwr yr hawl i ddilyn cwrs astudio a hefyd, ar ba sail y gall pennaeth neu benadur benderfynu diddymu hawl disgybl/myfyriwr i ddilyn cwrs astudio, yn awr wedi'i gynnwys fel rhan o'r Mesur. Mae pŵer wedi'i gynnwys yn y Mesur i Weinidogion Cymru newid y sail honno yn y dyfodol os oes angen.

- *Llunio'r cwricwlwm lleol ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 4/ myfyrwyr 16-18 oed.*

Mynegodd yr ymatebwyr rywfaint o bryder ynghylch y diffiniad o ardal leol, sydd â goblygiadau mewn perthynas â llunio cwricwlwm lleol ar gyfer ardal leol a strwythurau presennol y Rhwydwaith. Mae nifer o ardaloedd awdurdodau lleol yn trefnu'r ddarpariaeth ddysgu o fewn clystyrau ar hyn o bryd, sy'n rhoi ystyriaeth i'r ddarpariaeth leol a daearyddiaeth yr ardal. Gall clystyrau o'r fath greu strwythur effeithiol i

drefnu cwricwla lleol ac felly mae'r Mesur wedi ei ddiwygio i alluogi trefniant o'r fath. Lle ceir mwy nag un cwricwlwm lleol, bydd pob un yn cyfateb i ysgolion neu golegau penodol.

- *Dewisiadau disgyblion o gwricwlwm lleol*

Mewn ymatebion oedd yn trafod gosod isafswm nifer y cyrsiau ar gyfer cwricwla lleol, nododd ymgynghorion fod angen eglurdeb ar beth oedd yn cael ei gyfrif fel cwrs. Diwygiwyd y Mesur i ganiatáu cyflwyno system bwyntiau, gyda nifer penodedig o bwyntiau'n cael eu dyrannu ar gyfer bob cwrs. Roedd hynny'n hwyluso'r broses o osod mwyafswm ar gyfer hawliau dysgwyr. Roedd yn caniatáu rhoi pwyslais priodol ar faint a chymhlethdod pob cymhwyster o fewn yr amrywiaeth o ddewisiadau oedd ar gael i ddysgwyr.³

- *Cyflenwi hawliau'r cwricwlwm lleol: gweithio ar y cyd (Cynnwys y nifer uchaf posib o gyrsiau astudio yn y cwricwlwm lleol)*⁴

Mae angen i Sefydliadau gydweithio er mwyn sicrhau cyflawni'r isafswm o hawliau i ddysgwyr. Roedd nifer o ymatebion yn nodi'r angen am ganllawiau ar ystyr cydweithio ac yn ystyried nad oedd dyletswydd i gydweithio ddim yn agwedd ddigon cryf. Yn dilyn ymgynghoriad, ymestynnwyd y diffiniad o gydweithrediad o fewn y Mesur i gynnwys mwy o drefniadau cydweithio ffurfiol. Roedd yr adran hon yn gosod dyletswydd ar awdurdodau addysg lleol a chyrrff llywodraethol ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach i ystyried cydweithredu er mwyn sicrhau bod y nifer uchaf o gyrsiau astudio ar gael ar y cwricwlwm lleol. Os ydy partïon yn dod i'r casgliad y byddai cydweithredu'n cynorthwyo i gyrraedd y nod, yna rhaid iddyn nhw geisio gwneud hynny.

- *Nodi cwricwlwm lleol ar gyfer y dysgwr*

Mynegwyd peth pryder ynglŷn â sicrhau dyletswydd gofal dros ddysgwyr a bod mwy o eglurdeb ynghylch pa sefydliad oedd yn gyfrifol am ba ddisgybl. Yn ystod y cam hwn gosodwyd mwy o eglurder yn y Mesur gyda golwg ar bennu o gwricwlwm lleol pa ysgol neu SAU y bydd gan ddisgybl yr hawl i wneud dewisiadau ohono. Roedd hyn er mwyn tanlinellu'r ffaith mai'r penderfyniad ynghylch "ysgol neu sefydliad perthnasol" ddylai ddod yn gyntaf yn y drefn benderfynu sy'n arwain yn y pen draw at sefydlu'r hawl i ddilyn cwrs astudio.

- *Ysgolion arbennig*

³ Noder, yn dilyn gwelliannau i'r Mesur arfaethedig yn ystod Cam 2 bod y pŵer trwy reoliad i ddarparu ar gyfer y nifer uchaf o gyrsiau a phwyntiau sgorio cysylltiedig wedi'i ddileu o'r Mesur. Gweler Adran 4.2.2. "Hawliau Disgyblion: Uchafswm Nifer y Cyrsiau"

⁴ Gwnaed gwelliannau pellach i'r rhan hon o'r ddarpariath o fewn y Mesur arfaethedig yn ystod Cam 2. Gweler Adran 4.2.2, "Darparu cwricwlwm lleol: Cydweithio a Chydweithredu".

Codwyd cwestiwn gan rai ymatebwyr ynglŷn â chymhwysiad y Mesur ar gyfer rhai gydag Anghenion Addysgol Arbennig. Mae'r Mesur yn cydnabod bod ysgolion arbennig yn gweithredu o fewn amgylchiadau gwahanol. Am y rheswm hwnnw, nid yw ysgolion arbennig wedi'u cynnwys yn narpariaethau'r cwricwlwm lleol o fewn y Mesur. Fodd bynnag, gwnaethpwyd darpariaeth oedd yn caniatáu i reoliadau yn y dyfodol i gymhwyso darpariaethau'r cwricwlwm lleol mewn perthynas â phlant sy'n ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion arbennig neu sy'n mynychu sefydliadau sy'n darparu addysg yn gyfangwbl neu'n bennaf ar gyfer pobl gydag anhawster dysgu.

- Yn ychwanegol, diddymwyd y pŵer i atal y cwricwlwm lleol. Mae'r hyblygrwydd a roed gan y ddarpariaeth hon yn cael ei gyflawni trwy Reoliadau'n ymwneud â llunio'r cwricwlwm lleol.

4.2.2 Newidiadau'n dilyn Cam 1 a Cham 2

- Hawliau Disgyblion – Uchafswm Nifer y Cyrsiau

Dan y gwelliant hwn mae'r pŵer diamwys i gyfyngu ar nifer y cyrsiau posib y mae gan ddysgwr unigol yr hawl i ddewis eu dilyn yng Nghyfnod Allweddol 4 wedi'i ddileu, ac felly hefyd y pŵer i bennu pwyntiau ar gyfer cyrsiau astudio.

- Yr Iaith Gymraeg

Gosodir dyletswydd ar awdurdodau addysg lleol mewn perthynas â'u swyddogaethau cwricwlwm lleol gyda golwg ar ddisgyblion Cyfnod Allweddol 4, a Gweinidogion Cymru, mewn perthynas â'u swyddogaethau cwricwlwm lleol gyda golwg ar ddisgyblion 16 i 18 oed, i hyrwyddo mynediad i gyrsiau a ddysgir trwy gyfrwng y Gymraeg wrth ymarfer eu swyddogaethau mewn perthynas â'r cwricwlwm lleol.

Effaith y gwelliant hwn fydd sicrhau bod awdurdodau addysg lleol a Gweinidogion Cymru dan y ddyletswydd hon pan fyddant, er enghraifft, yn cynllunio ac yn ffurfio'r cwricwla lleol ar gyfer ardal benodol.

Bydd hefyd yn ofynnol i awdurdodau addysg lleol i roi ystyriaeth i'r arweiniad a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru ynghylch y ffordd maen nhw'n cwrdd â'u dyletswyddau yn y maes hwn, a bydd yn rhaid iddyn nhw adrodd i Weinidogion Cymru'n flynyddol ar ba gyrsiau cyfrwng Gymraeg maent wedi'u cynnwys yn eu cwricwlwm, faint o ddisgyblion a ddewisodd ac a gafodd yr hawl i ddilyn y cyrsiau hynny a beth mae'r awdurdod yn bwriadu'i wneud yn ystod y flwyddyn academaidd ganlynol i sicrhau mynediad i ddisgyblion i gyrsiau a ddysgir trwy gyfrwng y Gymraeg.

- Apeliadau

Mae'r gwelliant hwn yw rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ddarparu ar gyfer system apeliadau o fewn rheoliadau mewn perthynas â phenderfyniadau i beidio â chaniatáu hawl, neu i ddileu hawl i ddilyn cwrs astudio. Gall y rheoliadau osod y drefn ar gyfer yr apeliadau hyn, gan gynnwys y person neu'r corff fydd yn clywed yr apeliadau a'r cyfyngiadau amser ar gyfer gwneud penderfyniad yn eu cylch.

- Cynllunio Anghenion Dysgu Ychwanegol Cwricwlwm Lleol

Mae'r gwelliant hwn yn ceisio sicrhau bod AALLau, cyrff llywodraethol, penaethiaid ysgolion a phenaduriaid sefydliadau addysg bellach, mewn perthynas â chwricwlwm lleol Cyfnod Allweddol 4, yn rhoi ystyriaeth i ofynion pobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol wrth gynllunio'r cwricwlwm lleol.

- Cynllunio Cwricwlwm Lleol: AALLau ac AALLau cyfagos

Cafwyd gwelliant yng Ngham 2 sy'n ailddatgan y sefyllfa gyfreithiol bresennol yn yr ystyr ei fod yn anelu at rymuso awdurdodau addysg lleol, ysgolion a sefydliadau addysg bellach i gynorthwyo awdurdodau addysg lleol cyfagos i gynllunio eu cwricwla Cyfnod Allweddol 4.

- Darparu cwricwlwm lleol: cydweithio a chydweithredu

Mae'r gwelliant hwn yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Addysg Lleol a chyrff llywodraethol ysgolion a sefydliadau Addysg Bellach i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y nifer fwyaf o gyrsiau ar gael yn y cwricwlwm lleol ar gyfer eu hardal. Fel rhan o'r ddyletswydd honno, dylai'r cyrff perthnasol fynd ati i sefydlu trefn gydweithredol os ydyn nhw o'r farn y byddai hynny'n sicrhau bod mwy o gyrsiau ar gael.

- Pennu ysgol neu sefydliad perthnasol.

- Mae'r gwelliant hwn yn newid technegol a fwriadwyd i sicrhau nad oes yna unrhyw le i gamddehongli effaith cyfreithiol adran 23 o'r Mesur. Mae'n gwneud hi'n glir bod y penderfyniad ynghylch ysgol neu sefydliad perthnasol disgybl yn wahanol i drefniadau derbyn y disgybl, a wneir dan ddeddfwriaeth ar wahân. Hynny yw, nid yw pennu ysgol neu sefydliad perthnasol at ddibenion yr adran yn gwneud hi'n ofynnol i unrhyw berson i dderbyn disgybl i ysgol neu sefydliad arbennig.

- Bod yn ddiuedd

Cafwyd gwelliant yng ngham 2 i sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir fel rhan o wasanaethau cymorth dysgwyr yn cael ei chyflwyno mewn ffordd ddiuedd. Mae'r gwelliant hefyd yn darparu bod yn rhaid i'r cyngor a roddir fel rhan o'r gwasanaethau hynny fod at ddibenion hyrwyddo lles pennaf y person ifanc dan sylw, a hefyd, na ddylai geisio hyrwyddo, ar draul lles pennaf y dysgwr, fuddiannau unrhyw ysgol, sefydliad neu berson arbennig.

5 Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

5.1 Mae'r Mesur yn cynnwys pwerau galluogi i Weinidogion Cymru fedru darparu rheoliadau ynghylch:

- Llunio'r cwricwlwm lleol, er enghraifft, isafswm nifer y cyrsiau i'w cynnig o fewn y cwricwlwm lleol ac isafswm nifer y cyrsiau hynny ddylai fod yn alwedigaethol;
- Dewis cyrsiau cwricwlwm lleol gan gynnwys y cyfnod ar gyfer gwneud y dewisiadau;
- y graddfeydd amser perthnasol ar gyfer penderfyniad pennaeth neu benadur na all disgybl ddilyn cwrs ac yn fwy cyffredinol mewn perthynas â gwneud penderfyniadau o'r fath;
- cymhwyso darpariaethau'r Mesur ar gyfer plant oedran ysgol gorfodol sydd heb gofrestru fel disgyblion ysgol a gynhelir ond sy'n derbyn addysg o fewn y sector addysg bellach yng Nghymru;
- cymhwyso darpariaethau'r Mesur ar gyfer plant oedran ysgol gorfodol sydd wedi cofrestru fel disgyblion ysgol arbennig a gynhelir ac i blant dros oedran ysgol gorfodol sy'n fyfyrwyr mewn sefydliadau sy'n darparu addysg yn gyfangwbl neu'n bennaf ar gyfer pobl gydag anhawster dysgu;
- pennu lleoliad dysgu arweiniol disgybl, "yr ysgol neu'r sefydliad perthnasol" a cheisiadau disgyblion a phenderfyniadau penaethiaid neu benaduriaid, gan gynnwys yn arbennig ddarpariaeth mewn perthynas â'r dyddiad a'r amser ar gyfer gwneud cais neu benderfyniad.

5.2 Yn ogystal mae'r Mesur yn galluogi Gweinidogion Cymru trwy orchymyn i:

- ddiwygio'r meysydd dysgu a
- diwygio ar ba sail benodol y gall pennaeth neu benadur benderfynu nad oes gan ddisgybl yr hawl i ddilyn cwrs neu nad oes hawl pellach gan ddisgybl i ddilyn cwrs.

5.3 Ym mhob achos a nodir uchod, mae'r rhesymeg dros gymhwyso'r is-ddeddfwriaeth yn dibynu ar yr angen i osgoi gor-fanylu neu i ganiatau hyblygrwydd o fewn cyfyngiadau'r egwyddorion a gyflwynwyd o fewn y Mesur ei hun. Gan y bydd y rheoliadau hyn yn cynnwys cryn fanylder, ac yn destun adolygiad cyfnodol a diwygio pe bai angen, ystyrir ei bod yn fwy priodol eu cynnwys o fewn is-ddeddfwriaeth nac o fewn y Mesur.

5.4 Mae'r pŵer trwy orchymyn i ddiwygio'r meysydd dysgu a'r sail i atal yr hawl yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol yn y Cynulliad, fel y byddent yn caniatáu diwygiadau i'r Mesur ei hun.

5.5 Mae unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir dan ddarpariaethau'r Mesur yn ddarostyngedig i archwiliad gan y Cynulliad Cenedlaethol dan y weithdrefn negyddol. Bydd y gorchmynion hyn ar y cyfan yn dechnegol, yn drefniadol neu byddant yn gosod trefniadau manwl, ac ystyrir mai'r drefn negyddol yw'r ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon o sicrhau newidiadau o'r fath, ynghyd ag archwiliadau priodol gan y Cynulliad.

6 Aseiad Effaith Rheoleiddiol (AERh)

Ceir Aseiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y mesur hwn yn rhan 2.

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

7. Opsiynau

7.1 Cyflwyniad

7.1.1 Mae datblygiad y polisi Llwybrau Dysgu 14-19 yn tarddu o 'Y Wlad sy'n Dysgu' a gyhoeddwyd yn 2001. Cynhaliwyd ymgynghoriad llawn ar ddatblygiad y polisi yn 2002. Cyhoeddwyd canllawiau polisi anstatudol yn y lle cyntaf yn 2004 ac ers hynny mae'r holl Awdurdodau Addysg Lleol wedi derbyn arian ar gyfer sefydlu Rhwydweithiau Dysgu 14-19 sydd wedi'u seilio ar ffiniau ardaloedd awdurdodau lleol. Mae datblygiad y Llwybrau Dysgu 14-19 yn elfen allweddol o fewn y strategaeth addysg ar gyfer Cymru. Bwriad y Llwybrau Dysgu 14-19 yw trawsffurfio'r ddarpariaeth a'r cymorth ar gyfer dysgwyr, codi lefelau cyflawniad a chyrhaeddiad, paratoi pobl ifanc ar gyfer gwaith medr uchel neu addysg uwch a galluogi Cymru i gystadlu yn Ewrop yn yr 21ain Ganrif.

7.1.2 Mae angen darparu Dysgwyr yn y cyfnod 14-19 gyda sylfaen cadarn sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd a gwaith fel oedolyn. Ar hyn o bryd mae yna ormod o bobl ifanc sydd ddim yn cysylltu'n llawn gyda'u profiadau dysgu. Mae hyn yn cynnwys rhai dysgwyr sy'n perfformio'n dda ar hyn o bryd o fewn y system bresennol. Mae'r polisi Llwybrau Dysgu 14-19 yn cydnabod bod cyfuniad o 6 elfen allweddol yn hanfodol i gefnogi'r polisi, sef:

- Llwybrau Dysgu Unigol
- Dewis Ehangach a Hyblygrwydd
- Datblygu Craidd Dysgu
- Cymorth Anogwyr Dysgu
- Cymorth Personol
- Cyngor ac Arweiniad Gyrfa Diduedd

7.1.3 Mae Tabl 7.1.4 yn archwilio'r pedwar amcan allweddol sydd angen eu cwrdd er mwyn cyflawni amcanion y polisi.

Tabl 7.1.4

Amcan	Rhesymwaith
<p>1. Hyrwyddo cydweithrediad a chydweithio rhwng darparwyr addysg er mwyn sicrhau dewislen opsiynau sy'n cynnig amrywiaeth eang o ddewisiadau a chyfleoedd ar gyfer dysgwyr ymhob rhan o Gymru.</p>	<p>Gellir sicrhau bod yna ddewis ehangach trwy gyfrwng cydweithrediad rhwng y darparwyr. Byddai'n anodd iawn i unrhyw ddarparwr unigol i gynnig yr amrywiaeth o ddewis a ragwelir wrth weithio ar ben ei hun. Trwy weithio mewn partneriaeth bydd darparwyr yn gallu sicrhau bod gan ddysgwyr amrywiaeth priodol o ddewis. Gyda'r dull hwn anogir colegau, ysgolion, darparwyr hyfforddiant preifat a'r sector gwirfoddol i gydweithredu a, lle bo'n addas, i gydweithio i ddarparu dewislen opsiynau ar gyfer dysgwyr. Mae'r ddewislen opsiynau'n darparu dysgwr gydag amrywiaeth o opsiynau o ran cyrsiau a phynciau y gellir eu hastudio o fewn ardal. Dylid ei llunio mewn ffordd sy'n cwrdd â'r anghenion a'r galw am sgiliau ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol.</p>
<p>2. Sicrhau hawl dysgwyr i amrywiaeth o opsiynau o'r ddewislen opsiynau, gan gynnwys o'r tu allan i'w prif leoliad dysgu.</p>	<p>Gall dewis ehangach gynorthwyo i godi lefelau cyfranogiad, cyflawniad a chyrhaeddiad dysgwyr o bob gallu. Bydd dewislen opsiynau a gyflawnir trwy gydweithrediad a chydweithio'n gynorthwyo i hyrwyddo hyn. Ni fydd darparu dewislen opsiynau ynddo'i hun fodd bynnag yn sicrhau bod dysgwyr yn cael yr hawl i astudio amrywiaeth priodol o opsiynau. Mae angen rhywfaint o benodolrwydd er mwyn sicrhau bod y cysyniad o hawl dysgwyr i ddewis yn cael ei wireddu. Rhaid i raddau'r penodolrwydd, fodd bynnag, ganiatáu hyblygrwydd i ardaloedd lleol i ymateb i anghenion sgiliau a gofynion dysgwyr yn lleol.</p>
<p>3. Sicrhau mynediad i amrywiaeth ehangach o brofiadau o'r craidd dysgu.</p>	<p>Mae'r craidd dysgu'n cynnwys sgiliau allweddol, addysg bersonol a chymdeithasol, addysg gysylltiedig â gwaith a gwasanaeth cymunedol. Mae yna gysylltiad agos rhyngddo â datblygiadau craidd cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Ystyrir bod mynediad i, a chydabyddiaeth o brofiadau ehangach o'r fath yn bwysig o ran hyrwyddo cyfranogiad a chyflawniad.</p>
<p>4. Sicrhau mynediad i gymorth sydd heb ei gynnwys mewn deddfwriaeth flaenorol, sef yn bennaf, cymorth anogwyr dysgu a chymorth personol</p>	<p>Gall dewis ehangach ond gynorthwyo i sicrhau bod dysgwyr yn cyflawni eu potensial os oes yna gyngor a chymorth safonol y tu cefn iddo. Amcan swyddogaeth yr Anogwr Dysgu yw cynorthwyo dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau dysgu; gwneud defnydd gwell o, a datblygu eu harddulliau dysgu eu hunain a sicrhau eu bod yn datblygu i'r eithaf mewn amryw o feysydd deallusol, gan gynnwys deallusrwydd emosïynol. I nifer sylweddol o ddysgwyr yn yr</p>

Amcan	Rhesymwaith
	ystod oedran 14-19 mae materion personol yn rhwystrau real a sylweddol rhag dysgu, dros dro neu dros dymor hir. I lawer, felly, mae cymorth personol yn ffordd allweddol o geisio goresgyn y rhwystrau hyn.

7.1.5 Mae costau diwygio profiadau dysgwyr o fewn yr ystod oedran 14-19 yn cael cymorth uniongyrchol gan gyllid penodol ar gyfer y rhaglen Llwybrau Dysgu 14-19. Yn 2007-8 roedd cyfanswm y grant penodol yn £32.5 miliwn. Darparwyd £20.9 miliwn fel gwariant refeniw, a dosrannwyd y mwyafrif o hwnnw trwy'r awdurdodau lleol i'r 22 o Rwydweithiau 14-19 lleol. Roedd yr £11.6 miliwn oedd yn weddill yn wariant cyfalaf. Yn ychwanegol, cafwyd arian grant penodol ar gyfer Bagloriaeth Cymru, datblygiad sydd â chysylltiad agos â'r cyfnod 14-19.

7.1.6 Yn y tymor canolig i hir mae'r Llwybrau Dysgu 14-19 yn ddatblygiad prif ffrwd fydd yn defnyddio cyllid prif ffrwd, a bydd patrymau'r gwariant yn addasu i gynnal gweithgarwch. Mae'n hanfodol bod y polisi'n cael ei weithredu ar y sail fwyaf cost effeithiol posib.

7.1.7 Ar lefel genedlaethol bydd y cynnydd yn y gost sy'n gysylltiedig â rhai gweithgareddau cydweithredol neu/a chydweithiol yn cael ei osod rhywfaint yn erbyn y gostyngiad yn y niferoedd o fewn yr ystod oedran 14-19. Rhagamcanir -6% o newid yn y boblogaeth yn yr ystod oedran 14-19 rhwng 2008 a 2012³.

7.1.8 Ystyrir tri opsiwn mewn perthynas â chyflawni amcanion y polisi a llwyddo i hwyluso'r amcanion a ystyrir yn Nhabl 8.1. Dylid gwerthuso pob opsiwn yn erbyn y rhain. Y tri opsiwn yw:

- Opsiwn 1: Gwneud dim.
- Opsiwn 2: Parhau i esblygu a gweithredu'r Polisi Llwybrau Dysgu 14-19 heb greu deddfwriaeth
- Opsiwn 3: Cyflwyno Mesur Cynulliad.

7.2 Opsiwn 1: Gwneud dim.

7.2.1 Darparwyd arweiniad anstatudol ar weithredu'r polisi Llwybrau Dysgu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r arweiniad anstatudol hwn, ynghyd ag arian grant penodol wedi arwain gweithrediad y polisi hyd yn hyn.

7.2.2 Nododd Adroddiad Blynyddol Prif Arolygwr ei Mawrhydi ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2005/7 fod:

² Ffynhonnell: Amcanestyniad poblogaeth ar gyfer Cymru yn seiliedig ar 2006, Adran Actiwari'r Llywodraeth

“Cyflwyno Llwybrau Dysgu 14-19 yn golygu y dylai dysgwyr fedru dewis o amrywiaeth gynyddol o gyrsiau sy’n cwrdd yn well ag anghenion a dyheadau pob disgybl. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o ysgolion sy’n darparu amrywiaeth digon eang o opsiynau yn un ai 14 neu 16 oed..... Mae’n annhebygol y bydd ysgolion yn gallu cynyddu’r amrywiaeth hwn o opsiynau trwy weithio ar ben eu hunain. I gynyddu’r opsiynau ar gyfer eu dysgwyr, mae angen i ysgolion unigol gydweithio gyda cholegau addysg bellach ac ysgolion uwchradd eraill neu ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith.

7.2.3 Petai’r status quo yn aros heb weithrediad statudol:

- Mae’n bosib y gellid gwneud cynnydd pellach mewn perthynas â 14-19 a gellid datblygu’r 6 elfen ymhellach. Byddai unrhyw gynnydd yn dibynnu ar ewyllys da AALLau, ysgolion, sefydliadau addysg bellach a darparwyr eraill i ddatblygu gweithrediad y polisi ymhellach yn absenoldeb unrhyw ddull datblygiadol o lywio strategol cenedlaethol
- Fel ar hyn o bryd, ni fyddai yna unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol ar ysgolion, cyrff llywodraethol na sefydliadau addysg bellach i ystyried cydweithredu neu gydweithio wrth ddarparu ar gyfer rhai 14-19. Byddai nifer o ddarparwyr addysg yn parhau i weithredu’n annibynnol. Gallai nifer o ddarparwyr sy’n cydweithio ar hyn o bryd ddewis rhoi’r gorau i wneud hynny.
- Mae cadw at y lefel bresennol o gydweithrediad rhwng sefydliadau’n debygol o arwain at fethiant i ehangu dewis y dysgwr y tu hwnt i’r lefel bresennol. Byddai gostyngiad yn lefel y cydweithrediad yn debygol o arwain at gwtogi dewis y dysgwr.
- Byddai unrhyw ddatblygiadau’n anwastad a byddai’r amrywiadau presennol o ran darpariaeth yn dwysau. Byddai hyn yn debygol o ddigwydd yn nhermau datblygiad y cwricwlwm a’r cymorth i ddysgwyr. Byddai’n arwain at broblemau difrifol o ran cyfleoedd cyfartal.
- Byddai’r datblygiadau’n annhebygol o ddigwydd ar yr un cyflymdra â newidiadau o ran theori ac ymarfer addysgol
- Byddai’r potensial ar gyfer gwelliannau o ran cyfranogiad, cyflawniad a chyrhaeddiad yn llai tebygol o gael eu gwireddu.
- Byddai’r nod o gael *’95 y cant o bobl ifanc erbyn cyrraedd 25 oed yn barod ar gyfer gwaith medr uchel neu addysg uwch erbyn 2015* yn llai tebygol o gael ei gyflawni
- Ychydig iawn o gyfle fyddai ‘na i wireddu’r darbodion maint a allai ddod o ganlyniad i rannu darpariaeth.

7.2.4 Am y rhesymau hyn, ystyrir nad yw’r opsiwn o ‘wneud dim’ yn dderbyniol. Dyna’r dull o weithredu (neu beidio â gweithredu) sy’n lleiaf tebygol o gwrdd â’r amcanion a nodir yn y polisi.

7.3 Opsiwn 2: Parhau i ddatblygu a gweithredu'r Polisi Llwybrau Dysgu 14-19 heb greu deddfwriaeth

7.3.1 Byddai Opsiwn 2 yn golygu parhau gyda'r dull presennol o weithredu'r polisi Llwybrau Dysgu 14-19. Byddai'n golygu parhau i ddatblygu a chynhyrchu arweiniad anstatudol; defnyddio arian grant trosiannol penodol a dwyn perswâd.

7.3.2 Mae nifer o'r problemau posib a wynebir yn opsiwn 1 yn wir am opsiwn 2, er eu bod yn debygol o gael eu lleddfu i ryw raddau gan y gweithgareddau fyddai'n digwydd dan opsiwn 2.

- Mae'n debygol y byddai'r cynnydd yn parhau dan yr opsiwn hwn. Byddai'r cynnydd yn ddibynnol ar ymrwymiad AALLau, ysgolion, sefydliadau addysg bellach a darparwyr hyfforddiant preifat i'r polisi. Byddai'r arweiniad anstatudol yn darparu llyw strategol priodol a byddai arian grant penodol ar gael i gynorthwyo datblygiadau.
- Ni fyddai AALLau, ysgolion a sefydliadau addysg bellach dan unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol i ystyried cydweithredu neu gydweithio wrth ddarparu ar gyfer rhai 14-19 oed. Byddai grym Gweinidogion Cymru i fynd i'r afael â'r diffyg cydweithio a chydweithredu'n gyfyngedig iawn.
- Mae'n debyg y byddai 'na rywfaint o gynnydd tuag at ehangu dewis; ychydig iawn o gymhelliad fyddai 'na i ddefnyddio cyllid prif ffrwd i ehangu'r dewis ar gyfer y dysgwyr.
- Byddai'n parhau i fod yn hynod o anodd i sicrhau cyfleoedd cyfartal ar gyfer rhai 14-19 ar draws Cymru. Byddai amrywiadau annerbyniol o ran mynediad i ddarpariaeth gwricwlaidd a chymorth dysgu'n debygol o barhau a dwysau o bosib.
- Byddai'r potensial ar gyfer gwella cyfranogiad, cyflawniad a chyrhaeddiad yn fwy tebygol o gael ei wireddu nag yn opsiwn 1 ond byddai'r tebygolrwydd o'i wireddu'n llawn ac yn llwyr yn parhau'n isel.
- Byddai'r nod o gael *'95 y cant o bobl ifanc erbyn cyrraedd 25 oed yn barod ar gyfer gwaith medr uchel neu addysg uwch erbyn 2015* yn her i'w gyrraedd
- Ychydig iawn o gyfle fyddai 'na i sicrhau'r darbodion maint posib o ganlyniad i rannu darpariaeth.

7.3.4 Mae Opsiwn 2 yn golygu parhau gyda'r dull presennol o weithredu'r Llwybrau Dysgu 14-19. Gwnaethpwyd cynnydd sylweddol ond bu'n gynnydd arafach na'r hyn a ddymunir yn ddelfrydol. Nododd "Y Wlad Sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith", er gwaetha'r cynnydd fod "Cydweithio o ran addysg a hyfforddiant 14-19 rhwng ysgolion, colegau addysg bellach a darparwyr dysgu seiliedig ar waith yn wan." Teimlir na aethpwyd, ac na ellir, mynd i'r afael â'r mater sylfaenol hwn yn llawn dan opsiwn 2.

7.4 Opsiwn 3: Cyflwyno Mesur Cynulliad

7.4.1 Mesur Cynulliad yw'r llwybr sy'n fwyaf tebygol o arwain at gyflawni amcanion y polisi. Mae'r mesur yn darparu hyblygrwydd ar gyfer gwneud newidiadau angenrheidiol i fanylion y polisi yn y dyfodol.

7.4.2 Byddai Opsiwn 3 felly yn:

- Sicrhau bod ysgolion a sefydliadau addysg bellach yn cydweithredu gydag AALLau a Gweinidogion Cymru i lunio dewislen opsiynau.
- Sicrhau bod AALLau, ysgolion a sefydliadau addysg bellach yn ystyried cydweithredu/cydweithio er mwyn ceisio cyrraedd y nod o sicrhau'r lefel uchaf o fynediad i gyrsiau astudiaeth sydd ar gael yn y cwricwlwm lleol.
- Rhoi grym i Weinidogion Cymru i gyfarwyddo awdurdod lleol, corff llywodraethol ysgol a gynhelir a chorff llywodraethol sefydliad o fewn y sector addysg bellach i gydweithredu/gydweithio.
- Sicrhau dewis cwricwlaidd ehangach ar gyfer dysgwyr 14-19 ar draws Cymru gan gynnwys craidd dysgu.
- Sefydlu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer Cymru y gellir ei ddatblygu i gwrdd â'r newidiadau yn anghenion addysgol rhai 14-19 oed
- Y mwyaf tebygol o hwyluso'r nod o sicrhau bod *'95 y cant o bobl ifanc erbyn cyrraedd 25 oed yn barod ar gyfer gwaith medr uchel neu addysg uwch erbyn 2015*

7.4.3 Byddai Mesur Cynulliad yn gymorth mawr i gyflawni'r amcanion polisi sy'n nodweddu Llwybrau Dysgu 14-19.

8. Costau a Buddiannau

8.1 Ceir archwiliad cryno o'r costau **cyffredinol** allweddol a'r buddiannau sy'n gysylltiedig â phob opsiwn yn Nhabl 8.1.1 i 8.1.3. Mae yna gysylltiad uniongyrchol rhwng y rhain â'r amcanion a osodir yn Nhabl 7.1.4. Yna ceir archwiliad cryno yn Nhabl 8.1.4 o bob un o'r cynigion allweddol sydd yn y Mesur ynghyd â'r costau a'r buddiannau perthynol.

Tabl 8.1.1 Opsiwn 1: Gwneud Dim

Amcan	Sylw	Cost	Budd
<p>1. Hyrwyddo cydweithrediad a chydweithio rhwng darparwyr addysg er mwyn sicrhau dewislen opsiynau sy'n cynnig amrywiaeth eang o ddewisiadau a chyfleoedd ar gyfer dysgwyr ymhob rhan o Gymru.</p>	<p>Ni fyddai angen unrhyw weithredu pellach i sicrhau'r amcan hwn</p>	<p>Mae'n annhebygol iawn y byddai yna lefel sylweddol o gydweithredu a chydweithio.</p> <p>Canlyniad hyn fyddai:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyfyngu ar ddatblygiad y ddewislen opsiynau (cwricwlwm lleol) • llai o gyfleoedd i dorri nôl ar ddyblygu • dyraniad lled orau o adnoddau'n unig <p>Posibilrwydd o gyhoeddusrwydd negyddol, yn enwedig o ystyried y gallai fod yna golli tir sylweddol.</p>	<p>Arbed costau yn nhermau arbed yr arian grant trosiannol penodol ar gyfer Llwybrau Dysgu 14-19. Ar hyn o bryd mae hwn yn £32.5 miliwn y flwyddyn a rhagwelir y bydd yn parhau hyd at 2012.</p>
<p>2. Sicrhau hawl dysgwyr i amrywiaeth eang o opsiynau o'r ddewislen opsiynau, gan gynnwys o'r tu allan i'w prif leoliad dysgu.</p>	<p>Ni fyddai angen unrhyw weithredu pellach i sicrhau'r amcan hwn. Gallai fod yna rywfaint o ddatblygiad o ganlyniad i'r fenter wreiddiol ond byddai hynny'n debygol o ddiflannu dros amser.</p>	<p>Ni fyddai dysgwyr yn cael dewis ehangach ar y raddfa a ragwelwyd.</p> <p>Ni fyddai unrhyw hawl lleiaf yn cael ei osod ar gyfer dysgwyr. Byddai hynny'n golygu methu â mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau presennol.</p> <p>Ni fyddai 'na unrhyw effaith positif fyddai'n arwain at ostwng niferoedd y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na</p>	<p>Mi fyddai 'na lai o gostau gweinyddol yn gysylltiedig â gweithredu. Ar hyn o bryd mae'r rhain yn dod o'r £20.9m o wariant referniw o fewn y £32.5m.</p>

Amcan	Sylw	Cost	Budd
		<p>hyfforddiant (NEET). Mae lefel bresennol NEET 16-18 oed wedi aros yn weddol gyson dros y ddeng mlynedd diwethaf ar tua 10-12%. Amcangyfrifir bod y gost ychwanegol ar gyfer adnoddau sy'n gysylltiedig â NEET yn dod i gyfanswm o £97,000 y person dros oes.</p> <p>Byddai'n anoddach cwrdd ag anghenion dysgwyr amrywiol gan gynnwys y rhai mwy medrus a'r rhai sydd ar hyn o bryd yn perfformio ar lefel gyfartalog.</p> <p>Yn fyr, i nifer sylweddol o ddysgwyr byddai'r cwricwlwm oedd ar gael yn 14-19 yn mynd yn llai perthnasol i'w hanghenion a byddai'r cyfle i wneud y cwricwlwm yn fwy perthnasol i ddysgwyr o bob gallu'n cael ei golli. Yn ogystal â hyn, byddai'r gwelliannau o ran cyfranogiad, cyflawniad a chyrraeddian a ragwelir trwy weithredu'r polisi'n llawn yn cael eu colli.</p> <p>Byddai hyn yn cael effaith anffafriol ar berfformiad addysgol</p>	

Amcan	Sylw	Cost	Budd
		a thwf yr economi yn y dyfodol.	
3. Sicrhau mynediad i amrywiaeth eang o brofiadau o'r craidd dysgu.	Ni fyddai angen unrhyw weithredu pellach i sicrhau'r amcan hwn trwy'r Llwybrau Dysgu 14-19. Yn ymarferol, byddai rhai elfennau o'r craidd dysgu'n parhau i gael eu datblygu ond nid mewn ffordd systematig a chydlynol.	Ni fyddai'r mynediad i brofiadau ehangach sy'n gysylltiedig â'r craidd dysgu'n cael ei ddatblygu. Byddai hyn yn cael effaith negyddol ar ddatblygiad dysgwyr. Mae yna hefyd oblygiadau negyddol posib o ran ysgogi dysgwyr a gosod gwerth ar weithgareddau dysgu anffurfiol megis gwasanaeth cymunedol a dinasyddiaeth dda.	Ni ragwelir unrhyw fuddiannau.
4. Sicrhau mynediad i gymorth nad yw wedi'i gynnwys mewn deddfwriaeth flaenorol, sef yn bennaf, cymorth anogwyr dysgu a chymorth personol.	Ni fyddai angen unrhyw weithredu pellach i sicrhau'r amcan hwn trwy'r Llwybrau Dysgu 14-19. Yn ymarferol, byddai elfennau o'r cymorth personol yn parhau fel y mae ar hyn o bryd.	Byddai swyddogaeth yr Anogwr Dysgu fel rhan o strategaeth glir yn cael ei golli. Cynlluniwyd y polisi i sicrhau gwelliant sylweddol i ansawdd y cymorth dysgu a dderbynnir gan bobl ifanc. Byddai'r gwelliant hwn a'r canlyniadau sylweddol yn cael eu colli.	Mi fyddai 'na arbedion o ran y costau sy'n gysylltiedig â hyfforddi a gweithredu swyddogaeth yr anogwr dysgu. Mae hwn wedi'i gynnwys eisoes o fewn y £32.5m.

Tabl 8.1.2 Opsiwn 2: Parhau i ddatblygu a gweithredu'r Polisi Llwybrau Dysgu 14-19 heb greu deddfwriaeth.

Amcan	Sylw	Cost	Budd
<p>1. Hyrwyddo cydweithrediad a chydweithio rhwng darparwyr addysg er mwyn sicrhau dewislen opsiynau sy'n cynnig amrywiaeth eang o ddewisiadau a chyfleoedd ar gyfer dysgwyr ymhob rhan o Gymru.</p>	<p>Gellid parhau i wneud hynny. Gellid defnyddio'r cyllid trosiannol penodol i ddarparu rywfaint o gymhelliad i newid. Gallai arweiniad anstatudol gynorthwyo i annog datblygiadau i'r cyfeiriad hwn. Yn y pen draw fodd bynnag byddai'r cynnydd posib ond yn cael ei wireddu petai yna ymrwymiad llawn a chyflawn i'r polisi a'i weithrediad. Byddai'r opsiwn o eithrio yn un real iawn i'r sefydliadau hynny oedd yn dymuno gwneud hynny.</p>	<p>Gyda'r opsiwn hwn byddai angen y £32.5 miliwn o arian grant penodol a byddai hwnnw'n cael ei ddosrannu ar draws llwyddiant yr amcanion. Mae hyn yn digwydd ar hyn o bryd.</p> <p>Mi fyddai 'na rywfaint o ddatblygiad yn nhermau cydweithrediad a chydweithio.</p> <p>Canlyniad hyn fyddai:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyfyngu ar ddatblygiad y ddewislen opsiynau (cwricwlwm lleol) • llai o gyfleoedd i dorri nôl ar ddyblygu • dyraniad lled orau o adnoddau'n unig <p>Byddai'r costau'n is na'r rhai ar gyfer opsiwn 1.</p>	<p>Mi fyddai 'na rywfaint o ddatblygiad o ran cydweithio a chydweithredu fyddai'n hwyluso'r broses o weithredu polisiâu ac yn golygu rywfaint yn llai o ddyblygu. Byddai hynny'n debygol o wella'r patrwm ar gyfer dyrannu adnoddau.</p>
<p>2. Sicrhau hawl dysgwyr i amrywiaeth eang o opsiynau o'r ddewislen opsiynau, gan gynnwys o'r tu allan i'w prif leoliad dysgu.</p>	<p>Gellid gweld cynnydd o ran ehangu dewis. Byddai'n anodd iawn sefydlu neu warantu isafswm hawl ar draws Cymru. Ychydig iawn o gymhelliad fyddai 'na i ddefnyddio cyllid prif ffrwd i ehangu dewis.</p>	<p>Byddai dysgwyr yn cael dewis ehangach ond nid ar y graddau a ragwelwyd o ganlyniad i weithredu'r polisi'n llawn.</p> <p>Byddai llai o debygolrwydd o sicrhau isafswm hawl yn genedlaethol. Byddai hynny'n</p>	<p>Byddai dysgwyr yn cael dewis ehangach o opsiynau. Gallai hynny gynorthwyo i godi lefelau cyfranogiad a chyflawniad. Byddai rhywfaint o gynnydd o ran sefydlu hawl ond gallai hynny amrywio o ardal i ardal.</p>

Amcan	Sylw	Cost	Budd
		<p>golygu na fyddai'r anghydraddoldebau presennol yn cael eu datrys.</p> <p>Mi fyddai 'na rywfaint o effaith bositif fyddai'n arwain at ostwng nifer y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).</p> <p>Mi fyddai 'na gynnydd o ran sicrhau bod anghenion pob dysgwr (o bob gallu) yn cael eu cyflawni'n fwy effeithiol. Byddai disgwyl i effaith hyn fod yn llai, fodd bynnag, na phetai gan y polisi ddeddfwriaeth y tu cefn iddo.</p> <p>I nifer sylweddol o ddysgwyr byddai'r cwricwlwm oedd ar gael yn 14-19 oed yn parhau i fod yn llai perthnasol i'w hanghenion na'r hyn a ddymunent. Ni fyddai'r potensial ar gyfer gwella cyfranogiad, cyflawniad a chyrhaeddiad a gyflwynir gan y polisi'n cael eu gwireddu'n llawn.</p> <p>Byddai hynny'n cael effaith anffafriol ar berfformiad addysgol</p>	<p>Gellid disgwyl rhywfaint o effaith ar y niferoedd NEET gyda'r hawl i ddewis ehangach yn rhyngweithio gyda swyddogaeth yr anogwr dysgu a chymorth personol.</p> <p>Mi fyddai 'na gynnydd o ran cyfranogiad, cyflawniad a chyrhaeddiad.</p>

Amcan	Sylw	Cost	Budd
		a thwf economaidd yn y dyfodol.	
3. Sicrhau mynediad i amrywiaeth eang o brofiadau o'r craidd dysgu.	Er mwyn cael darpariaeth fyd-eang ar gyfer dysgwyr mewn perthynas â'r craidd dysgu byddai angen i'r holl ddarparwyr ymrwymo i'w ddatblygu.	Byddai mynediad i'r profiad ehangach sy'n gysylltiedig â'r craidd dysgu'n llai datblygedig na phetai yna ddeddfwriaeth y tu cefn iddo. Ni fyddai potensial llawn y polisi'n cael ei wireddu. Cynhyrchu arweiniad. Cynnal systemau cyngor a chymorth gyda darparwyr.	Byddai 'na dystiolaeth o rywfaint o fudd o ddatblygu'r craidd dysgu. Byddai dysgu anffurfiol yn cael ei hyrwyddo a'i werthfawrogi.
4. Sicrhau mynediad i gymorth nad yw wedi'i gynnwys mewn deddfwriaeth flaenorol, sef yn bennaf, cymorth anogwyr dysgu a chymorth personol.	Byddai'r dull presennol o ddarparu rhywfaint o arian grant yn helpu i ddatblygu hyn ymhellach.	Byddai angen parhau gyda'r hyfforddiant a'r arweiniad ar gyfer swyddogaeth yr anogwr dysgu. Byddai hwn yn cael ei ariannu o'r grant penodol ar gyfer 14-19, o'r £20.9m o wariant refferiw.	Byddai swyddogaeth yr anogwr dysgu yn parhau i gael ei ddatblygu. Byddai hyn yn sylfaenol i'r elfen dewis ehangach o'r polisi. Byddai'r hyfforddiant a'r gefnogaeth yn parhau.

Tabl 8.1.3 Opsiwn 3: Cyflwyno Mesur Cynulliad

Amcan	Sylw	Cost	Budd
1. Hyrwyddo cydweithrediad a chydweithio rhwng darparwyr addysg er mwyn sicrhau dewislen opsiynau sy'n cynnig amrywiaeth eang o ddewisiadau a chyfleoedd ar gyfer dysgwyr ymhob rhan o Gymru.	Mae gwneud hi'n ofynnol i ddarparwyr roi ystyriaeth lawn i fesurau cydweithredol/cydweithio yn cynrychioli cam arwyddocaol ymlaen. Bydd hynny'n digwydd o fewn cyd-destun amcan penodol. Crëir dyletswydd cyfreithiol clir. Bydd gan Weinidogion Cymru'r pŵer i gyfarwyddo os oes angen.	Bydd gweithredu'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â'r polisi yn gofyn am ddyrannu £32.5m yn flynyddol hyd nes ei fod yn gwbl weithredol yn 2012. Bydd angen dyrannu hwn ar draws yr amcanion.	Bydd dewislenni opsiynau cytbwys ac eang eu sylfaen yn cael eu creu. Bydd y rhain yn ymateb i anghenion lleol. Bydd datblygiadau'n digwydd ar raddfa fwy ac yn gynharach nag a awgrymir gyda'r llwybrau eraill a ystyriwyd. Mi fydd yna lai o ddyblygu a bydd adnoddau'n cael eu dyrannu'n fwy effeithiol.
2. Sicrhau hawl dysgwyr i amrywiaeth eang o opsiynau o'r ddewislen opsiynau, gan gynnwys o'r tu allan i'w prif leoliad dysgu.	Bydd sefydlu hawl clir o fewn y fframwaith yn cyflawni hyn.	Bydd angen rhoi cefnogaeth i ddarparwyr i'w cynorthwyo i warantu'r hawl lleiaf. Cyflawnir hyn trwy ddefnyddio'r dyraniad o £32.5m.	Pennir hawl lleiaf ar gyfer dysgwyr. Bydd hyn yn cynorthwyo i hwyluso cyfleoedd cyfartal i ddysgwyr ar draws Cymru. Bydd modd cwrdd ag anghenion dysgwyr a'r arddulliau dysgu a ffafrir ganddynt yn well. Mi fydd yna effaith bositif yn nhermau cyfranogiad, cyflawniad a chyrhaeddiad. Bydd hyn yn gymorth i gwrdd â thargedau addysg a hyfforddiant cenedlaethol.
3. Sicrhau mynediad i amrywiaeth eang o brofiadau o'r craidd dysgu.		Cynhyrchu arweiniad. Cynnal systemau cyngor a chymorth gyda darparwyr.	Byddai mynediad i'r profiad ehangach sy'n gysylltiedig â'r craidd dysgu'n cael ei ddatblygu

			<p>wrth i'r fframwaith deddfwriaethol sefydlu ymrwymiad a hyrwyddo eglurder gyda golwg ar y Llwybrau Dysgu 14-19.</p> <p>Mae datblygiad y craidd dysgu'n cefnogi, ac yn derbyn cefnogaeth cymhwyster Bagloriaeth Cymru.</p>
<p>4. Sicrhau mynediad i gymorth nad yw wedi'i gynnwys mewn deddfwriaeth flaenorol, sef yn bennaf, cymorth anogwyr dysgu a chymorth personol.</p>		<p>Mi fyddai 'na gostau'n gysylltiedig â datblygu swyddogaeth yr anogwr dysgu, hyfforddiant a datblygiad. Caiff y rhain eu cwrdd ar hyn o bryd o'r £20.9m o gyllideb gwariant refeniw'r grant penodol ar gyfer y Llwybrau Dysgu 14-19.</p>	<p>Mi fydd yna welliant o ran cyfranogiad, cyflawniad a chyrhaeddiad yn y cyfnod 14-19.</p> <p>Bydd y cymorth personol presennol yn cael ei dargedu'n fwy effeithiol o fewn y grŵp oedran hwn.</p>

Tabl 8.1.4: Mesur Cynulliad – Trosolwg Byr o gynigion, rhesymwaith, costau a buddiannau'r mesur

Cynnig	Rhesymwaith	Costau	Buddiannau
<p>1. Gosod dyletswydd ar awdurdodau addysg lleol yng Nghymru i ffurfio cwricwla lleol ar gyfer dysgwyr 14-16 oed, ac ar Weinidogion Cymru ar gyfer dysgwyr 16-19 oed sy'n cynnwys meysydd dysgu penodedig.</p>	<p>Mae ffurfio cwricwlwm lleol yn ganolog i sicrhau bod gan ddysgwyr fynediad i amrywiaeth eang o opsiynau sy'n cynnwys darpariaeth alwedigaethol. Rhaid sefydlu a nodi'n glir y ddyletswydd i lunio cwricwla lleol.</p> <p>Tra ei bod hi'n gwbl briodol bod awdurdodau addysg lleol yn llunio cwricwla lleol mewn perthynas â rhai 14-16 oed; cymerir dull gwahanol mewn perthynas â rhai 16 - 18 oed. Mae hyn o ganlyniad i gyfrifoldebau ariannu. Mae Gweinidogion Cymru'n uniongyrchol gyfrifol am ariannu addysg bellach yng Nghymru ac felly mae'n briodol mai nhw sy'n llunio'r cwricwla lleol.</p> <p>Fodd bynnag, bydd Gweinidogion Cymru, os ydyn nhw'n dewis gwneud hynny, yn gallu trefnu, dan adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, bod awdurdod perthnasol yn ymarfer eu swyddogaethau dan yr adran hon.</p>	<p>Ar hyn o bryd mae dewislenni opsiynau (cwricwlwm lleol) yn cael eu llunio gan Rwydweithiau trwy'r AALLau. Mae bob Rhwydwaith yn derbyn £75k i weinyddu'r prosesau sy'n gysylltiedig â'r Llwybrau Dysgu 14-19 gan gynnwys llunio dewislen opsiynau.</p>	<p>Llunnir set glir o opsiynau a bydd pobl ifanc yn medru dewis o'u plith. Bydd hyn yn hwyluso dewis ehangach ac yn cynorthwyo i ysgogi dysgwyr. Bydd yn darparu sylfaen ar gyfer sicrhau gwelliant o ran cyfranogiad, cyflawniad a chyrrhaeddiad.</p> <p>Amcangyfrifir bod y gost ychwanegol mewn perthynas ag adnoddau ar gyfer NEET yn £97,000 y person dros oes. Felly dyna'r arbediad ariannol posib ar gyfer pob un gostyngiad yn nifer y rhai sydd yn y categori NEET.</p> <p>Hefyd, bydd dewis ehangach yn darparu profiad mwy heriol i'r dysgwyr hynny sydd angen eu hymestyn yn academaidd.</p>

Cynnig	Rhesymwaith	Costau	Buddiannau
<p>2. Galluogi Gweinidogion Cymru i nodi isafswm y cyrsiau astudio i'w cynnwys o fewn cwricwlwm lleol, nodi'r maes dysgu penodol mae cwrs astudio'n perthyn iddo a nodi isafswm y cyrsiau astudio galwedigaethol i'w cynnwys o fewn cwricwlwm lleol.</p>	<p>Ni fydd darparu dewislen opsiynau ynddo'i hun yn sicrhau bod dysgwyr yn cael yr hawl i astudio amrywiaeth priodol o opsiynau. Mae angen bod yn fwy penodol er mwyn sicrhau bod y cysyniad o hawl dysgwr i ddewis yn cael ei wireddu. Mae angen sicrhau bod dysgwr yn cael mynediad i astudio i'r dyfnder priodol ond ei fod hefyd yn cael ehangder o astudiaethau fydd yn sicrhau addysg gyflawn. Hefyd, mae'n bwysig bod pobl ifanc yn cael yr opsiwn o astudio pynciau galwedigaethol o fewn eu rhaglen gyffredinol o astudiaeth. Rhaid i lefel y penodolrwydd, fodd bynnag, ganiatáu i ardaloedd lleol fod yn ddigon hyblyg i ymateb i anghenion sgiliau a gofynion dysgwyr ar lefel leol.</p>	<p>Ariannir nifer o'r cyrsiau hyn trwy fethodolegau ariannu prif ffrwd. Mae arian grant penodol trosiannol wedi bod, ac yn dal i fod ar gael i hwyluso datblygiadau yn y maes hwn. Lle defnyddir arian grant penodol ar gyfer darparu cyrsiau newydd anogir Rhwydweithiau i drosglwyddo'r cyrsiau i'r cyllid prif ffrwd ar ôl dwy flynedd ar y mwyaf. Ar gyfer 2008 dyrannwyd tua £10.5 miliwn i ehangu dewis a gweithgareddau perthynol.</p>	<p>Bydd gan bobl ifanc fynediad i ddewis ehangach ac o ganlyniad bydd modd creu llwybr dysgu mwy cytbwys, eang ac arloesol.</p> <p>Eto bydd yn darparu sail ar gyfer sicrhau gwelliant o ran cyfranogiad, cyflawniad a chyrhaeddiad.</p>
<p>3. Nodi ar ba sail y gall Pennaeth / Penadur benderfynu nad oes gan ddisgybl yr hawl i ddilyn cwrs mae wedi'i ddewis.</p>	<p>Mae'n debyg y byddai'n amhosib sefydlu system fyddai'n caniatáu troi pob dewis a wneir gan ddisgyblion i ddilyn cyrsiau astudio yn hawl. Er enghraifft, os mai dyrnaid yn unig o ddisgyblion o fewn awdurdod addysg lleol sydd wedi dewis dilyn cwrs</p>	<p>Does yna ddim costau uniongyrchol. Yn ymarferol mae penaethiaid a phenaduriaid eisoes yn gwneud penderfyniadau o'r fath.</p> <p>Mae yna gost fodd bynnag i ddysgwyr unigol sy'n methu ag</p>	<p>Mae'r broses hon yn hwyluso dyraniad a defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau.</p>

Cynnig	Rhesymwaith	Costau	Buddiannau
	arbennig mae'n bosib na fyddai mynd ati i ddarparu'r cwrs hwnnw'n ddefnydd effeithlon o adnoddau.	astudio eu dewis cyntaf o gwrs.	
4. Nodi ar ba sail y gall Pennaeth / Penadur benderfynu nad oes gan ddisgybl yr hawl i ddilyn cwrs mae wedi'i ddewis	Weithiau, bydd hi'n angenrheidiol i ddiddymu hawl disgybl i ddilyn cwrs astudio. Er enghraifft, gall ef neu hi fod yn berygl iddo/i'i hun neu i eraill o fewn amgylchedd arbennig. Mewn sefyllfa o'r fath byddai'n rhaid diddymu'r hawl.	Does yna ddim costau uniongyrchol. Eto, mae prifathrawon a phenaduriaid eisoes yn gwneud penderfyniadau o'r fath.	Diogelu lles y dysgwyr.
5. Gosod dyletswydd ar gyrrff llywodraethol a phenaethiaid ysgolion a gynhelir a chyrrff llywodraethol y sector addysg bellach i gynorthwyo awdurdod addysg lleol neu Weinidogion Cymru i gynllunio cwricwla ardaloedd lleol, gan roi ystyriaeth i unrhyw arweiniad a gyhoeddir, a chan gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan Weinidogion.	Mae cydweithredu'n golygu bod gofyn i sefydliadau gynllunio a gweithio ar y cyd. Ar gyfer rhai 14-16 oed mae AALLau yn gyfrifol am lunio'r cwricwlwm ac ar gyfer rhai 16+ mae Gweinidogion Cymru'n gyfrifol am sicrhau ei fod yn cael ei lunio. Er mwyn gweithredu'r polisi'n effeithiol mae angen i ysgolion a SAU gynorthwyo un ai'r AALI a/neu Weinidogion Cymru yn eu swyddogaeth. Yn yr un modd byddai'n angenrheidiol hefyd i Weinidogion Cymru gyhoeddi arweiniad a chyfarwyddiadau.	Yn ymarferol, mae SAU ac ysgolion, mewn nifer o achosion, yn gweithio'n agos gyda'r AALI ac yn uniongyrchol gyda Gweinidogion Cymru trwy'r Rhwydweithiau Dysgu 14-19. Felly y bu hi ers 2004. Mae'n dilyn felly bod y broses o gynllunio datblygiad y rhwydwaith yn flynyddol a'r ariannu sy'n gysylltiedig â hynny'n cwrdd â chostau o'r fath.	Mae hyn yn sicrhau bod yna gynllunio a chydweithredu mwy effeithiol rhwng darparwyr. Mae'n helpu i sicrhau bod arfer gorau presennol yn cael ei ddatblygu ar draws Cymru, gan gynyddu'r dewis ar gyfer dysgwyr.
6. Sicrhau'r lefel uchaf o	Er mwyn sicrhau bod y nifer uchaf	Dim costau uniongyrchol. Fel	Mwy o gydweithredu ac, o

Cynnig	Rhesymwaith	Costau	Buddiannau
<p>gydweithrediad rhwng cyrff llywodraethol ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach, ag awdurdodau addysg lleol er mwyn darparu amrywiaeth eang o opsiynau astudio o fewn eu cwricwla ardal leol.</p>	<p>o gyrsiau ar gael ar y cwricwla lleol a sicrhau amrywiaeth eang o ddewis, bydd yn rhaid i leoliadau dysgu weithio ar y cyd.</p> <p>Bydd AALLau a chyrff llywodraethol ysgolion a gynhelir a SAU fel ei gilydd dan ddyletswydd barhaus i ystyried p'un ai fydd trefniadau cydweithredol yn gymorth i hyrwyddo'r amcan o sicrhau bod y nifer uchaf o gyrsiau ar gael. Os ydyn nhw'n dod i'r casgliad y byddai cydweithredu'n hyrwyddo'r amcan, yna rhaid iddynt wneud hynny.</p>	<p>uchod, mae'r Rhwydweithiau eisoes yn derbyn arian at ddibenion gweinyddol sy'n gysylltiedig â 14-19.</p>	<p>ganlyniad dewis ehangach i'r dysgwyr.</p>
<p>7. Galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi arweiniad a chyfarwyddiadau mewn perthynas â chydweithio a chydweithredu.</p>	<p>Er mwyn sicrhau bod y cydweithio'n cael ei weithredu'n llwyddiannus mae'n bosib y bydd angen i Weinidogion Cymru gyhoeddi arweiniad a chyfarwyddiadau cynorthwyol.</p>	<p>Cynhyrchu'r arweiniad. Mae'n bosib y bydd yna gostau'n gysylltiedig â'r cyfarwyddiadau, ond bydd y rhain yn dibynnu ar natur y cyfarwyddiadau penodol a roddir yn y dyfodol. Ni ragwelir y byddai unrhyw gyfarwyddiadau'n arwain at wariant sy'n uwch na'r lefel bresennol sy'n gysylltiedig â 14-19.</p>	<p>Y polisi'n cael ei gyflawni'n fwy effeithiol o ganlyniad i gydweithio llwyddiannus.</p>
<p>8. Rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ddiwygio'r</p>	<p>Gall fod angen diwygio'r meysydd dysgu, er enghraifft, i ganiatáu</p>	<p>Dim costau uniongyrchol. Gellid cymhwyso unrhyw</p>	<p>Hyblygrwydd i ddiwygio adeiladwaith presennol y</p>

Cynnig	Rhesymwaith	Costau	Buddiannau
meysydd dysgu.	creu meysydd dysgu newydd.	ddiwygio a wneir o ran meysydd dysgu o fewn y broses flynyddol o gynhyrchu dewislenni opsiynau, ni ragwelir y byddai newid o'r fath yn cynyddu costau cynhyrchu dewislenni opsiynau.	meysydd dysgu i gynnwys ac adlewyrchu'r ddarpariaeth o fewn y meysydd hynny yn y ffordd orau.

9 Crynodeb o Amcangyfrifon Costau

Darparwyd y crynodeb o amcangyfrifon costau a geir yn Nhabl 9.1 ar gyfer Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r wybodaeth a geir yn Nhabl 9.1.1 a'r cyfrifiadau cysylltiol creiddiol, yn fodd i arddangos fforddiadwyedd o fewn cyd-destun y cyllid ychwanegol a ddyranwyd ar gyfer y Llwybrau Dysgu 14-19

Table 9.1.1

	2009/10	2010/11	2011/12	2012/13	2013/14
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
gan gynnwys graddfa chwyddiant	2.75%	2.75%	2.75%	2.75%	2.75%
Darparu hawliau	5,733	11,235	11,509	12,407	13,215
Teithio sy'n gysylltiedig â darparu hawliau	1,054	2,324	2,892	4,007	4,291
Swyddogaeth Anogwyr Dysgu i gynorthwyo i ddarparu hawliau.	847	873	710	558	127
Cydweithrediad	3,052	2,439	2,506	2,575	2,646
Cyfanswm	10,686	16,871	17,617	19,547	20,279

Ar hyn o bryd mae £20.9m o wariant refeniw ac £11.6m o wariant cyfalaf wedi'i ddyrannu i'r Llwybrau Dysgu 14-19. Mae hyn yn ychwanegol i'r cyllid amcangyfrifedig o £550m a wariwyd trwy gyfrwng ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach ar ddysgwyr yn yr ystod oedran 14-19.

Atodiad

1

Nodiadau

Esboniadol

Nodiadau Esboniadol ar gyfer Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008

Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn ymwneud â Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008 fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2. Cawsant eu paratoi gan yr Adran dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn iddynt fod yn gymorth i ddeall y Mesur. Nid ydynt yn ffurfio rhan o'r Mesur ac ni chawsant eu hardystio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae angen darllen y Nodiadau ar y cyd â'r Mesur. Nid ydynt, ac ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Mesur. Gan hynny, os yw'n ymddangos nad oes angen unrhyw esboniad neu unrhyw sylwadau ar adran neu ran o adran, nis rhoddir.

RHAN 1 CWRICWLWM LLEOL AR GYFER DISGYBLION YNG NGHYFNOD ALLWEDDOL 4

Mae'r Rhan hon o'r Mesur yn mewnosod darpariaethau yn Rhan 7 o Ddeddf Addysg 2002 (DA 2002). Mae Rhan 7 yn ymwneud â'r cwricwlwm mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru. O ganlyniad i Ran 1 o'r Mesur, gan hynny, caiff y cwricwlwm mewn ysgolion uwchradd a gynhelir yng Nghymru ei ymestyn i gynnwys hawlogaethau disgyblion o ran y cwricwlwm lleol yng Nghyfnod Allweddol 4.

Mae adrannau 1-3 yn diwygio Deddf Addysg 2002

Adran 1 Dehongli

Mae'r adran hon yn darparu diffiniadau ychwanegol at y rhai a nodwyd eisoes yn adran 97 DA 2002, ac sy'n gymwys yn gyffredinol at ddibenion y Rhan honno. Mae'r diffiniadau ychwanegol yn darparu ystyr rhai o'r termau pwysicaf a ddefnyddir yn y darpariaethau a fewnosodir gan y Mesur hwn ynghylch y cwricwlwm lleol, sef:

- “course of study”, a ddiffinnir drwy gyfeirio at gyrsiau a gymeradwyir o dan adran 99 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000. Effaith hyn, er mwyn i gwrs astudio gael ei gynnwys mewn unrhyw gwricwlwm lleol a gaiff ei lunio gan AALI, yw bod yn rhaid iddo arwain at gymhwyster allanol a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf 2000;
- “local curriculum” a “local curricula” sydd i'w dehongli yn unol ag adran 116A. Pan ddefnyddir y term “local curriculum” mewn perthynas ag ysgol disgybl, mae'n golygu'r cwricwlwm lleol sy'n gymwys mewn perthynas â'r ysgol honno. Mae hyn yn darparu ar gyfer y posibilrwydd y gall AALI o dan adran 116A lunio mwy nag un cwricwlwm lleol, e.e. cael cwricwla lleol gwahanol ar gyfer ysgolion mewn gwahanol rannau o'i ardal;
- “maintained secondary school”, a ddiffinnir fel ysgol a gynhelir sy'n ysgol uwchradd ond nad yw'n ysgol gymunedol arbennig neu'n ysgol sefydledig arbennig;
- “regulations” a ddiffinnir fel rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru;
- “school”. Mae'r diffiniad yn darparu bod “school”, o ran disgybl, yn golygu'r ysgol uwchradd a gynhelir lle y mae'n ddisgybl cofrestredig ynddi.

Adran 2 Dyletswydd i weithredu gofynion cyffredinol

Mae'r adran hon yn diwygio adran 100 o DA 2002. Mae adran 100 yn gweithredu drwy gyfeirio at adran 99 DA 2002 sydd ei hunan yn gosod rhestr o ofynion cyffredinol sy'n gymwys i'r cwricwlwm ar gyfer ysgol a gynhelir, e.e. bod y cwricwlwm yn paratoi disgyblion yn yr ysgol ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd wedyn. Mae gan amryw o gyrff swyddogaethau o ran y

cwricwlwm ar gyfer ysgol a gynhelir. Mae adran 100 yn ei gwneud yn ofynnol bod y cyrff hyn, megis Gweinidogion Cymru ac awdurdodau addysg lleol, i arfer eu swyddogaethau mewn modd a fydd yn sicrhau bod gofynion adran 99 yn cael eu bodloni. Mae'r diwygiad a wneir gan yr adran hon i adran 100 yn sicrhau bod gofynion cyffredinol adran 99 hefyd yn gymwys mewn perthynas â swyddogaethau'r cwricwlwm lleol a grëir gan y Rhan hon o'r Mesur.

Adran 3 Y Cwricwlwm Sylfaenol ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru

Mae'r adran hon yn diwygio adran 101 o DA 2002. Mae adran 101 yn rhestru'r dulliau addysg hynny sy'n ffurfio'r cwricwlwm sylfaenol ar gyfer ysgol a gynhelir yng Nghymru. Mae'r diwygiad yn darparu bod cwricwlwm sylfaenol ysgol hefyd yn cynnwys addysg sy'n bodloni hawlogaethau disgyblion o ran y cwricwlwm lleol.

Mae adrannau 4-17 yn mewnosod darpariaethau newydd yn Neddf Addysg 2002

Adran 4 Llunio'r cwricwla lleol ar gyfer disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 (adran 116A o Ddeddf Addysg 2002)

Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer llunio yn ardal pob awdurdod addysg lleol gwricwlwm lleol neu gwricwla lleol ar gyfer disgyblion 14-16 oed (disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4).

Mae is-adran (1) yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod addysg lleol i lunio o leiaf un cwricwlwm lleol i ddisgyblion 14-16 oed yn ei ardal.

Mae is-adran (2) yn datgan bod yn rhaid i gwricwlwm lleol gynnwys cyrsiau astudio addas sy'n dod o fewn y meysydd dysgu a osodir yn is-adran (3), ac a ddetholir gan yr awdurdod lleol. O dan is-adran (6), mae Gweinidogion Cymru yn penderfynu drwy gyfarwyddyd pa gyrsiau astudio sy'n addas ar gyfer eu cynnwys mewn cwricwla lleol. Yna bydd yr awdurdod lleol yn dewis o'r rhestr honno o gyrsiau addas.

Mae is-adran (3) yn disgrifio'r meysydd dysgu sy'n ffurfio'r categorïau ym mhob cwricwlwm lleol.

Mae is-adran (4) yn darparu disgrisiwn i awdurdodau lleol i lunio cwricwlwm lleol i fodloni anghenion lleol, yn ddarostyngedig i reoliadau y caniateir eu gwneud o dan is-adran (5).

Mae is-adran (5) yn gwneud darpariaeth i reoliadau gael eu gwneud gan Weinidogion Cymru o ran llunio cwricwlwm lleol, er enghraifft i osod

lleiafswm nifer y cyrsiau y mae'n rhaid eu cynnwys mewn cwricwlwm lleol neu leiafswm cyfran y cyrsiau astudio galwedigaethol sydd i'w cynnwys mewn cwricwlwm lleol.

Mae is-adran (6) yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru ddynodi cwrs astudio yn un galwedigaethol ei natur neu'n "suitable" at ddibenion yr adran hon ac i bennu manylion y maes dysgu penodol y mae cwrs astudio yn cael ei osod ynddo.

Is-adran (7) – Mae hon yn caniatáu i reoliadau ddarparu ar gyfer gofynion gwahanol ar gyfer cwricwla lleol mewn ardaloedd gwahanol. Er enghraifft, fe all fod lleiafswm nifer o gyrsiau mewn rhai ardaloedd y mae'n rhaid eu cynnwys yn eu cwricwla lleol sy'n uwch nag ydyw mewn ardaloedd eraill.

Adran 4A Cwricwla lleol: Y Gymraeg (adran 116AB o Ddeddf Addysg 2002)

Mae'r adran hon yn darparu, bod yn rhaid i awdurdodau addysg lleol wrth iddynt arfer eu swyddogaethau o ran y cwricwlwm lleol, hybu mynediad at gyrsiau astudio a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd hyn yn gymwys, er enghraifft, i'r awdurdodau pan fyddant yn llunio eu cwricwlwm lleol ar gyfer eu hardal. O dan yr adran hon, bydd awdurdodau addysg lleol hefyd o dan ddyletswydd i roi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru. Mae'r adran hefyd yn gosod gofyniad i adrodd ar awdurdodau addysg lleol ynghylch arfer eu swyddogaethau o dan yr adran.

Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod addysg lleol arfer ei swyddogaethau o ran cwricwla lleol mewn modd a fydd yn hybu mynediad at gyrsiau astudio a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae is-adran (2) yn darparu bod yn rhaid i awdurdodau addysg lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru wrth gyflawni'r ddyletswydd a roddir arnynt o dan is-adran (1).

Mae is-adran (3) yn darparu y gellir rhoi canllawiau a ddyroddir o dan is-adran (2) i awdurdod unigol, i ddsbarth o awdurdodau neu i bob awdurdod yn gyffredinol.

Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod addysg lleol o fewn dau fis ar ôl diwedd y flwyddyn academiaidd, baratoi adroddiad i'w gyflwyno i Weinidogion Cymru. Rhaid i'r adroddiad:

- (a) disgrifio'r cyrsiau astudio mewn cwricwla lleol, ar gyfer y flwyddyn honno, sydd i'w haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg;
- (b) disgrifio'r nifer o ddisgyblion a wnaeth ddewis dilyn y cyfryw gyrsiau a pha nifer gafodd hawlogaeth ganddynt i wneud hynny;
- (c) esbonio cynlluniau'r awdurdod mewn blynyddoedd academiaidd diweddarach, er mwyn rhoi cyfle i ddisgyblion cofrestredig ysgolion a

gynhelir gan yr awdurdod i ddilyn cyrsiau astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae is-adran (5) yn diffinio “academic year” at ddibenion is-adran (4) fel y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar 1 Medi.

Adran 5 Awdurdodau â mwy nag un cwricwlwm lleol (adran 116B o Ddeddf Addysg 2002)

Mae'r adran hon yn gymwys pan fydd awdurdod lleol yn llunio mwy nag un cwricwlwm lleol o dan adran 116A.

Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau addysg lleol ddynodi'r ysgolion uwchradd a gynhelir y mae pob cwricwlwm lleol yn gymwys iddynt. O dan y darpariaethau a ddisgrifir isod, mae hawl gan ddisgyblion cofrestredig ysgolion uwchradd a gynhelir i ddewis dilyn cyrsiau astudio a gynhwysir yn y cwricwlwm lleol ar gyfer eu hysgol.

Adran 6 Dewisiadau disgyblion o gyrsiau cwricwlwm lleol (adran 116C o Ddeddf Addysg 2002)

Mae'r adran hon yn dechrau'r broses sy'n peri bod gan ddisgybl hawlogaeth i ddilyn cyrsiau astudio a gynhwysir yn y cwricwlwm lleol sy'n gymwys i'w ysgol. O dan yr adran hon, mae hawl gan ddisgyblion i ddewis dilyn cwrs astudio penodol. Mae darpariaethau diweddarach yn penderfynu a yw'r dewis hwnnw i gael ei drosi'n hawlogaeth i ddilyn y cwrs astudio o dan sylw.

Mae is-adran (1) yn gosod hawliau disgyblion i ddewis dilyn cwrs neu gyrsiau, yn ystod Cyfnod Allweddol 4, o'r cwricwlwm lleol cymwys. Er hynny, mae'r hawliau yn ddarostyngedig i reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan is-adran (2).

Mae is-adran (2) yn galluogi gwneud rheoliadau ynghylch o fewn pa gyfnod y mae dewisiadau i gael eu gwneud. Gall fod angen cyfyngu ar y cyfnod ar gyfer gwneud dewisiadau ar gyfer cyrsiau fel bod yr asiantaethau perthnasol, ar ôl hynny, yn cael digon o amser i wneud y paratodau angenrheidiol ar gyfer cyflenwi'r cyrsiau astudio a ddewiswyd (y gellir eu cyflenwi o bosibl gan ysgol neu sefydliad heblaw'r un a fyny chir wrth wneud y dewisiadau).

Adran 7 Hawlogaethau disgyblion o ran y cwricwlwm lleol (adran 116D o Ddeddf Addysg 2002)

Mae'r adran hon yn darparu bod dewis a wneir gan ddisgybl o dan adran 6 yn hawlogaeth 'mewn egwyddor' i ddilyn y cwrs astudio a ddewiswyd. Bydd yn dod yn hawlogaeth go iawn oni bai bod achlysur y darperir ar ei gyfer yn yr adran hon yn digwydd.

Mae is-adran (1) yn pennu bod hawlogaeth disgybl yn dod i ben os bydd yn peidio â bod yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol, er enghraifft, os bydd yn gadael ardal yr awdurdod addysg lleol ac yn dod yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol sydd mewn ardal wahanol yng Nghymru, neu os, cyn cychwyn cyfnod allweddol pedwar, bod pennaeth ysgol y disgybl wedi penderfynu, o dan adran 116E o DA 2002, nad oes hawlogaeth gan y disgybl i ddilyn y cwrs astudio a ddewiswyd.

Mae is-adran (2) yn pennu, pan fydd hawlogaeth i ddilyn cwrs astudio mai'r pennaeth sydd i benderfynu pryd mae'r cwrs astudio i ddechrau.

Adran 8 Penderfyniad pennaeth ysgol ynghylch hawlogaeth (adran 116E o Ddeddf Addysg 2002)

Mae is-adran (1) yn caniatáu i bennaethiaid ysgol benderfynu, ar seiliau penodedig, nad oes gan ddisgybl hawlogaeth i ddilyn cwrs neu gyrsiau astudio penodol.

Mae is-adran (2) yn pennu ar ba sail y gall pennaeth ysgol benderfynu nad oes gan ddisgybl hawlogaeth i ddilyn cwrs astudio.

Mae is-adran (3) yn galluogi Gweinidogion Cymru, mewn rheoliadau, i wneud darpariaeth sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau o dan is-adran(1). Er enghraifft, darpariaeth ar gyfer pa amser neu pa ddyddiad y mae penderfyniadau i'w gwneud a'r weithdrefn sydd i'w dilyn mewn achosion o'r fath, ar gyfer apelau i gorff llywodraethu ysgol neu i berson arall a bennir yn y rheoliadau, yr amser neu'r dyddiad ar gyfer dyfarnu apelau a'r weithdrefn sydd i'w dilyn mewn cysylltiad â dyfarnu apelau o'r fath.

Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i bennaeth yr ysgol a'r person y gosodwyd arno'r cyfrifoldeb i ddyfarnu apelau o dan y rheoliadau, roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru ynglŷn â'r dull y caiff swyddogaethau eu harfer o dan yr adran hon.

Mae is-adran (5) yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy Orchymyn, i newid y sail dros ddiddymu'r hawlogaeth.

Adran 9 Cyflawni hawlogaethau'r cwricwlwm lleol (adran 116F o Ddeddf Addysg 2002)

Mae'r adran hon yn pennu'r ddyletswydd a osodir ar gorff llywodraethu ysgol i gyflawni hawlogaethau cwricwlwm lleol yn ystod Cyfnod Allweddol 4. Mae'r adran yn darparu os yw disgybl wedi cael hawlogaeth i ddilyn cwrs, rhaid bod y cwrs ar gael i'r disgybl gan, neu ar ran, corff llywodraethu ei ysgol. Mae hyn yn golygu y gellir cynnig cyrsiau astudio o fewn y cwricwlwm lleol mewn lleoliad dysgu gwahanol i'r lleoliad lle y mae'r disgybl wedi'i gofrestru.

Adran 10 Penderfyniad pennaeth ysgol i ddileu hawlogaeth (adran 116G o Ddeddf Addysg 2002)

Weithiau, bydd angen dileu hawlogaeth disgybl i ddilyn cwrs astudio, am resymau iechyd a diogelwch, er enghraifft. Gosodir ar ba sail y gall pennaeth ysgol benderfynu na fydd gan ddisgybl hawlogaeth bellach i ddilyn cwrs astudio yn is-adran (2).

Mae is-adran (3) yn galluogi Gweinidogion Cymru, mewn rheoliadau, i wneud darpariaeth bellach sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau o dan yr adran hon gan gynnwys:

- (a) y weithdrefn benderfynu;
- (b) darpariaeth ar gyfer apelau i gorff llywodraethu ysgol neu i berson arall a bennir yn y rheoliadau;
- (c) darpariaeth ynghylch effaith penderfyniad hyd nes y ceir dyfarniad ar apêl;
- (ch) y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn cysylltiad â dyfarnu apêl.

Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i bennaeth yr ysgol a'r person y gosodwyd arno'r cyfrifoldeb i ddyfarnu apelau o dan y rheoliadau, roi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o ran arfer y swyddogaethau o dan yr adran hon.

Mae is-adran (5) yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy Orchymyn, i newid y sail dros ddiddymu'r hawlogaeth.

Adran 11 Cynllunio'r cwricwlwm lleol (adran 116H o Ddeddf Addysg 2002)

Bydd penderfyniad awdurdod lleol ynghylch pa gyrsiau astudio i'w cynnwys yn ei gwricwla lleol o dan adran 116A yn dibynnu i raddau helaeth ar y cynhwysedd addysgol lleol. Ychydig iawn o werth fyddai i gynnwys cyrsiau nad yw ysgolion lleol a Sefydliadau Addysg Bellach yn medru eu cyflenwi. Yn unol â hynny, mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol bod y rhai sy'n gyfrifol am ddarparu addysg i ddisgyblion 14 i 16 oed o fewn ardal awdurdod addysg lleol yn cynorthwyo'r awdurdod i gynllunio ei gwricwla lleol.

Mae is-adran (1) yn pennu bod yn rhaid i'r personau canlynol gynorthwyo'r awdurdod lleol yn hyn o beth:

- (a) corff llywodraethu unrhyw ysgol a gynhelir sydd wedi'i lleoli yn ardal yr awdurdod;
- (b) pennaeth unrhyw ysgol o'r fath;
- (c) corff llywodraethu sefydliad yn y sector addysg bellach sydd wedi'i leoli yn ardal yr awdurdod; a
- (ch) pennaeth unrhyw sefydliad Addysg Bellach o'r fath.

Mae is-adran (2) yn diffinio "planning the local curriculum or curricula" fel y broses y mae awdurdod addysg lleol yn ei defnyddio i benderfynu pa gyrsiau

astudio i'w cynnwys yn y cwricwlwm neu'r cwricwla lleol. Mae is-adran (3) yn darparu bod Gweinidogion Cymru'n dyroddi canllawiau ac yn rhoi cyfarwyddiadau ynghylch arfer swyddogaethau person o dan yr adran hon ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r personau hynny roi sylw i'r canllawiau a chydymffurfio â'r cyfarwyddiadau.

Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i AALLau, cyrff llywodraethu ysgolion a phenaethiaid sefydliadau addysg bellach wrth gynllunio'r cwricwlwm lleol, gymryd i ystyriaeth ofynion disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol

Mae is-adran (5) yn datgan fod gan awdurdod lleol a'r personau a grybwyllir yn is-adran (1) y pŵer i gynorthwyo awdurdodau lleol cyfagos i gynllunio eu cwricwlwm lleol.

Adran 12 Cyflawni hawlogaethau'r cwricwlwm lleol: cydweithio (adran 116I o Ddeddf Addysg 2002)

Fel a nodir yn is-adran (1), amcan yr adran hon yw sicrhau bod y nifer mwyaf o gyrsiau astudio ar gael o fewn cwricwlwm lleol.

Mae is-adrannau (2) a (4), yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod addysg lleol, corff llywodraethu ysgol uwchradd a gynhelir a sefydliad addysg bellach i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau amcan yr adran hon.

Mae is-adran (3) yn darparu bod y ddyletswydd i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau amcan yr adran yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny, dyletswydd i geisio ymrwymo mewn trefniadau cydweithredu, lle y mae'r personau perthnasol wedi penderfynu y byddai'n hyrwyddo amcan yr adran i ymrwymo mewn trefniadau o'r fath.

Diffinnir "co-operation arrangement" yn is-adran (5) i olygu trefniant lle y mae unrhyw berson yn darparu cwrs astudio ar ran corff llywodraethu ysgol a gynhelir, neu drefniadau a wneir o dan reoliadau o dan adrannau 26 o Ddeddf Addysg 2002 a 166 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006, sy'n drefniadau cydweithio mwy ffurfiol a allai gynnwys, er enghraifft, sefydlu cyd-bwyllgor.

Mae is-adran (6) yn diffinio "relevant local curriculum" at ddibenion yr adran hon.

Adran 13 Cydweithio: canllawiau a chyfarwyddiadau (adran 116J o Ddeddf Addysg 2002)

Mae'r adran hon yn ymwneud â'r ymrwymadau i gydweithio a osodir gan adran 116I. Mae'n ofynnol i awdurdod addysg lleol, corff llywodraethu ysgol uwchradd a gynhelir a chorff llywodraethu sefydliad addysg bellach roi ystyriaeth i'r canllawiau neu gydymffurfio â'r cyfarwyddiadau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru ynglŷn â'u swyddogaethau o dan adran 116I.

Mae is-adran (4) yn ei gwneud hi'n glir y caiff cyfarwyddiadau a osodir gan yr adran hon ei gwneud hi'n ofynnol i sefydlu trefniant cydweithredol penodol o dan adran 116I. Mewn achos o gyfarwyddyd i ymrwymo mewn trefniadau i gydweithredu gyda pharti arall nad yw'n Awdurdod Addysg Lleol, yn gorff llywodraethu ysgol neu'n gorff llywodraethu Sefydliad Addysg Bellach, rhaid peidio â rhoi cyfarwyddyd o'r fath heb gydsyniad y parti hwnnw. Bydd hyn yn cynnwys sefydliadau eraill sy'n darparu cyrsiau astudio sy'n rhan o'r cwricwlwm lleol, er enghraifft, darparwyr hyfforddiant preifat neu gyrrff yn y sector gwirfoddol.

Adran 14 Pŵer i ddiwygio meysydd dysgu (adran 116K o Ddeddf Addysg 2002)

Mae'r ddarpariaeth hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru drwy orchymyn ddiwygio adran 116A(3). Byddai hyn, er enghraifft, yn caniatáu creu meysydd dysgu newydd.

Adran 15 Cymhwyso darpariaethau cwricwlwm lleol i blant nad ydynt yn ddisgyblion cofrestredig (adran 116L o Ddeddf Addysg 2002)

Mae'r adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddefnyddio rheoliadau i gymhwyso'r darpariaethau cwricwlwm lleol i blant nad ydynt yn ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion a gynhelir. Darperir diffiniad o'r rhai fyddai'n perthyn i'r categori hwn yn is-adran (3). Mae'r diffiniad yn dal plant o oedran ysgol gorfodol sy'n derbyn y cyfan, neu'r rhan fwyaf, o'u haddysg o dan drefniadau a wneir gan Sefydliadau Addysg Bellach ac nad ydynt yn ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion a gynhelir.

Adran 16 Cymhwyso darpariaethau cwricwlwm lleol i blant sydd yn ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion arbennig (adran 116M o Ddeddf Addysg 2002)

Nid yw'r Rhan hon o'r Mesur yn gymwys mewn perthynas ag ysgolion arbennig. Fodd bynnag, mae is-adran (1) yn caniatáu gwneud rheoliadau i gymhwyso darpariaethau'r cwricwlwm lleol ynglŷn â disgyblion cofrestredig mewn ysgolion arbennig.

Mae is-adran (2) yn caniatáu gwneud rheoliadau o dan is-adran (1) i gymhwyso'r cwricwlwm lleol gyda diwygiadau y gallai bod eu hangen, er enghraifft, er mwyn cymryd i ystyriaeth yr amgylchiadau y mae ysgolion arbennig yn gweithredu ynddynt.

Adran 17 Cwricwlwm lleol: cyfarwyddiadau (adran 116N o Ddeddf Addysg 2002)

Mae'r adran hon yn ei gwneud yn glir bod unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru o dan adrannau 116A, llunio cwricwla lleol, 116H cynllunio'r

cwricwlwm lleol ac 116J, gweithio ar y cyd, yn gallu cael eu hamrywio neu eu dirymu gan gyfarwyddyd pellach.

Mae adrannau 18 a 19 yn diwygio Deddf Addysg 2002

Adran 18 Pwerau i newid neu ddileu gofynion ar gyfer y pedwerydd cyfnod allweddol

Mae'r adran hon yn diwygio adran 107 o Ddeddf Addysg 2002. Mae adran 107 yn caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, newid neu ddileu gofynion ar gyfer y pedwerydd cyfnod allweddol. Mae'r diwygiad hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud y newidiadau angenrheidiol i Ddeddf Addysg 2002 o ganlyniad i orchymyn o'r fath.

Adran 19 Rheoliadau a gorchmynion: y weithdrefn

Mae'r adran hon yn diwygio adran 210 o Ddeddf Addysg 2002 er mwyn darparu rheolaeth i'r Cynulliad dros reoliadau a gorchmynion a wneir o dan y darpariaethau a fewnosodir gan y Mesur hwn yn Rhan 7 o Ddeddf Addysg 2002. Y weithdrefn berthnasol yw'r weithdrefn penderfyniad negyddol ym mhob achos ac eithrio pan wneir gorchymyn o dan adrannau 116E(5), 116G(5) ac 116K, sydd, oherwydd y byddai'n newid deddfwriaeth sylfaenol, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

RHAN 2 CWRICWLWM LLEOL AR GYFER MYFYRWYR 16 I 18 OED

Mae'r Rhan hon o'r Mesur yn mewnosod darpariaethau yn Rhan 2 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000. Mae Rhan 2 o'r Ddeddf honno'n ymwneud â'r chweched dosbarth ac addysg bellach yng Nghymru. Gan mwyaf, mae'r darpariaethau a fewnosodir yn adlewyrchu, gyda newidiadau priodol i adlewyrchu strwythur gwahanol addysg bellach, y ddarpariaeth a wneir mewn perthynas â'r cwricwlwm lleol ar gyfer plant 14 i 16 oed gan Ran 1 o'r Mesur hwn.

Mae adrannau 20 – 36 yn diwygio Deddf Dysgu a Medrau 2000

Adran 20 Addysg a hyfforddiant ar gyfer personau 16 i 18 oed

Mae Adran 31 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 yn gosod dyletswyddau cyffredinol ar Weinidogion Cymru mewn perthynas ag addysg bellach yng Nghymru. Mae'r adran hon o'r Mesur yn diwygio adran 31 fel bod y dyletswyddau cyffredinol hynny hefyd yn gymwys mewn perthynas â'r cwricwla lleol a grëir o dan y darpariaethau canlynol.

21 Llunio cwricwla lleol ar gyfer myfyrwyr 16 i 18 oed (adran 33A o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000)

Mae'r adran hon yn darparu bod pob ardal awdurdod addysg lleol yn llunio o leiaf un cwricwlwm lleol ar gyfer myfyrwyr 16 i 18 oed yng Nghymru.

Mae is-adran (1) yn darparu mai dyletswydd Gweinidogion Cymru yw llunio cwricwla lleol o dan yr adran hon. Yn unol â hynny, defnyddir dulliau gwahanol mewn perthynas â disgyblion 16 i 18 oed i'r rhai a ddefnyddir o dan Ran 1 o'r Mesur mewn perthynas â disgyblion 14 i 16 oed. Mae hyn o ganlyniad i gyfrifoldebau cyllidol. Mae Gweinidogion Cymru'n uniongyrchol gyfrifol am ariannu addysg bellach yng Nghymru ac mae'n briodol felly eu bod yn llunio'r cwricwla lleol. Cyfyngir cynnwys y cwricwla lleol gan yr adnoddau sydd ar gael ac mae'n angenrheidiol felly bod y corff sy'n rheoli'r adnoddau hefyd yn rheoli cynnwys y cwricwla lleol.

Mae is-adran (2) yn datgan bod yn rhaid i'r cwricwlwm lleol gynnwys cyrsiau astudio sy'n dod o fewn y meysydd dysgu a ddisgrifir yn is-adran (3) ac sydd wedi'u dethol gan Weinidogion Cymru. Bydd Gweinidogion Cymru, os byddant yn gweld yn dda i wneud hynny, yn gallu trefnu o dan adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 bod awdurdod perthnasol yn arfer ei swyddogaethau o dan yr adran hon. Er enghraifft, gallai Gweinidogion Cymru drefnu gydag awdurdod addysg lleol ei fod yn dethol ar ran Gweinidogion Cymru y cyrsiau astudio sydd i'w cynnwys yn y cwricwlwm lleol ar gyfer ardal yr awdurdod.

Mae is-adran (3) yn diffinio'r meysydd dysgu sy'n ffurfio categorïau'r cwricwlwm lleol. Mae'r rhain yn cyfateb i'r rhai ar gyfer disgyblion 14 i 16 oed yng Nghyfnod Allweddol 4 i ddarparu cyfleoedd ar gyfer cynnydd a dilyniant drwy gydol y cyfnod addysgol 14-18 oed.

Mae is-adran (4) yn darparu bod cwrs astudiaeth yn dod o fewn maes dysgu penodol os ceir cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru sy'n darparu hynny.

Adran 21A Cwricwla lleol: Y Gymraeg (adran 33AB o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000)

Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hybu mynediad at gyrsiau astudio a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg wrth arfer eu swyddogaethau ynghylch cwricwla lleol ar gyfer myfyrwyr 16 i 18 oed.

Adran 22 Ardaloedd â mwy nag un cwricwlwm lleol (adran 33B o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000)

Mae'r adran hon yn gymwys pan fydd Gweinidogion Cymru'n llunio mwy nag un cwricwlwm lleol o dan adran 33A.

Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddynodi ar gyfer pa ysgolion neu sefydliadau a gynhelir y mae pob cwricwlwm lleol yn gymwys.

Adran 23 Penderfynu "relevant school or institution" ar gyfer disgybl (adran 33C o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000)

Mae darpariaeth cwricwlwm lleol 16 i 18 oed yn gweithredu trwy gyfeirio at y cysyniad o “relevant school or institution” disgybl. Cam cyntaf y broses o benderfynu yw penderfynu ar “relevant school or institution” (dynodi'r ysgol neu'r sefydliad y mae gan y disgybl hawlogaeth i ddewis dilyn cwrs astudio o'i chwricwlwm lleol neu o'i gwricwlwm lleol) sydd yn y pen draw yn arwain at hawlogaeth i ddewis dilyn cwrs astudio.

Pennaeth yr ysgol a fynychir gan ddisgybl yn ystod Cyfnod Allweddol 4 sydd i benderfynu pa un yw ysgol berthnasol neu sefydliad perthnasol y disgybl. Gall fod mai'r ysgol a fynychwyd gan y disgybl yn ystod Cyfnod Allweddol 4 fydd honno (os oes chweched dosbarth ar gael yno) neu gall fod yn sefydliad gwahanol, er enghraifft, Sefydliad Addysg Bellach. Bydd yr ysgol berthnasol neu'r sefydliad perthnasol a ddynodir yn dibynnu ar ba ysgol neu sefydliad mae'r pennaeth yn meddwl y mae'r disgybl yn debygol o'i mynychu neu ei fynychu cyn gynted ag y bydd dros oedran ysgol gorfodol. Cyn dod i gasgliad, bydd angen i'r pennaeth ymgynghori gyda'r disgybl o dan sylw yn ogystal ag unrhyw ysgol neu sefydliad y byddai'r disgybl yn hoffi ei mynychu neu ei fynychu. Cyn gynted â bod penderfyniad wedi'i wneud ynghylch ysgol berthnasol neu sefydliad perthnasol disgybl, mae'r ysgol honno neu'r sefydliad hwnnw'n wedyn yn dod yn gyfrifol, yn unol â darpariaethau canlynol y Mesur hwn, am gyflawni hawlogaethau'r disgybl hwnnw o ran cwricwlwm lleol ar gyfer disgyblion 16-18 oed.

Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i benaethiaid ysgol i bennu ysgol berthnasol neu sefydliad perthnasol i'r disgybl, os yw disgybl yn gwneud cais am benderfyniad o'r fath.

Mae is-adran (2) yn diffinio ysgol berthnasol neu sefydliad perthnasol y disgybl fel un sydd, ym marn y pennaeth, yn debygol o fod yn gyfrifol am ddarparu'r rhan fwyaf o addysg y disgybl cyn gynted ag y bydd y disgybl dros oedran ysgol gorfodol.

Mae is-adran (3) yn galluogi Gweinidogion Cymru, mewn rheoliadau, i ddarparu ar gyfer gwneud ceisiadau a phenderfyniadau o dan yr adran hon. Er enghraifft, darparu ar gyfer y dyddiad neu'r amser erbyn pryd y dylid cyflwyno cais neu wneud penderfyniad.

Mae is-adran (4) yn darparu'n ddatganedig nad yw'r adran hon yn creu dyletswydd ar unrhyw berson i dderbyn disgybl i ysgol benodol neu sefydliad penodol.

Adran 24 Dewisiadau disgyblion o gyrsiau cwricwlwm lleol (adran 33D o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000)

Bydd yr adran hon yn gweithredu mewn perthynas â phlant yng Nghyfnod Allweddol 4. Yn ystod y cyfnod hwnnw bydd angen iddynt wneud dewisiadau

ynghylch y cyrsiau maent yn dymuno eu dilyn pan na fyddant bellach mewn oedran ysgol gorfodol ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4

Mae is-adran (1) yn gosod hawliau disgyblion i ddewis dilyn cwrs neu gyrsiau o'r cwricwlwm lleol perthnasol ar gyfer y disgybl hwnnw. Fodd bynnag, gall rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan is-adran (3) gyfyngu ar yr hawliau hyn.

Mae is-adran (2) yn gosod y cyfnod o amser yn ystod pa bryd y mae hawlogaeth unrhyw fyfyrwr yn bodoli. Mae unrhyw hawlogaeth yn dod i ben cyn gynted ag y bydd person yn cyrraedd 19 oed. Nid yw hyn yn golygu bod yn rhaid i berson o'r fath roi'r gorau i ddilyn cwrs astudio ar ôl cyrraedd 19 oed, dim ond nad oes ganddo hawlogaeth y gellir ei gorfodi i barhau i ddilyn y cwrs.

Mae is-adran (3) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau a allai, er enghraifft, bennu uchafswm nifer y cyrsiau y gall disgybl eu dewis o'r cwricwlwm lleol cyfan, cyfanswm pwyntiau'r cyrsiau y gellir eu dewis a'r cyfnod ar gyfer gwneud y dewisiadau hynny. Gall fod angen cyfyngu ar y cyfnod ar gyfer gwneud penderfyniadau fel bod yr asiantaethau perthnasol, ar ôl hynny, yn cael digon o amser i wneud y paratodau angenrheidiol ar gyfer cyflenwi'r cyrsiau astudio a ddewiswyd (y gellir eu cyflenwi o bosibl gan ysgol neu sefydliad heblaw'r un a fynychir pan wneir y dewisiadau).

Mae is-adran (4) yn diffinio "relevant local curriculum" ar gyfer disgybl. Dyma'r cwricwlwm lleol a ddynodir o ran ysgol berthnasol neu sefydliad perthnasol y disgybl o dan adran 33B o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000.

Adran 25 Hawlogaethau myfyrwyr o ran y cwricwlwm lleol (adran 33E o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000)

Mae'r adran hon yn darparu bod dewis a wneir gan fyfyrwr o dan adran 33D yn hawlogaeth 'mewn egwyddor' i ddilyn y cwrs astudio a ddewiswyd yn ysgol berthnasol neu sefydliad perthnasol y disgybl, neu o dan drefniadau a wnaed gan ysgol berthnasol neu sefydliad perthnasol y disgybl. Bydd yn dod yn hawlogaeth go iawn oni bai bod achlysur y darperir ar ei gyfer yn yr adran hon yn digwydd.

Mae is-adran (1) yn pennu bod hawlogaeth myfyrwr yn dod i ben os nad yw ysgol berthnasol neu sefydliad perthnasol y disgybl bellach yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'i addysg, er enghraifft, os yw'r myfyrwr yn peidio â bod yn fyfyrwr cofrestredig mewn ysgol cyn mynd i'w chweched dosbarth, neu os yw pennaeth ysgol berthnasol neu bennaeth sefydliad perthnasol myfyrwr yn penderfynu (cyn dechrau cyfnod yr hawlogaeth) nad oes gan y myfyrwr hawlogaeth i ddilyn y cwrs astudio a ddewiswyd.

Mae is-adran (2) yn pennu, pan fydd hawlogaeth i ddilyn cwrs astudio yn codi, mai pennaeth ysgol berthnasol neu sefydliad perthnasol y myfyrwr sydd i benderfynu pryd mae'r cwrs astudio hwnnw i ddechrau.

Adran 26 Penderfyniad pennaeth ysgol neu bennaeth sefydliad ynghylch hawlogaeth (adran 33F o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000)

Mae'n debyg y byddai'n amhosibl sefydlu system y byddai holl ddewisiadau disgybl i ddilyn cyrsiau astudio yn cael eu trosi'n hawlogaethau. Er enghraifft, os mai llond dwrn yn unig o ddisgyblion o fewn ardal awdurdod addysg lleol sy'n dewis dilyn cwrs arbennig, efallai na fyddai darparu'r cwrs hwnnw'n gwneud defnydd effeithiol o adnoddau. Dyna pam y mae is-adran (1) yn galluogi penaethiaid ysgolion neu sefydliadau i benderfynu, ar seiliau penodedig, nad oes gan ddisgybl yr hawlogaeth i ddilyn cwrs neu gyrsiau astudio penodol.

Mae is-adran (2) yn pennu ar ba sail y gall pennaeth ysgol neu sefydliad benderfynu nad oes gan ddisgybl yr hawl i ddilyn cwrs astudio.

Mae is-adran (3) yn galluogi Gweinidogion Cymru, mewn rheoliadau, i wneud darpariaeth sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau o dan is-adran (1). Er enghraifft, gall rheoliadau ddarparu ar gyfer:

- (a) erbyn pa amser neu pa ddyddiad y mae penderfyniadau i'w gwneud;
- (b) y weithdrefn sydd i'w dilyn wrth wneud penderfyniadau;
- (c) apelau i gorff llywodraethu ysgol neu sefydliad neu i berson arall;
- (ch) yr amser neu'r dyddiad ar gyfer dyfarnu apelau;
- (d) y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn cysylltiad â dyfarnu apelau.

Mae is-adran (4) yn gosod a dyletswydd ar bennaeth yr ysgol neu'r sefydliad a'r person y gosodwyd arno'r cyfrifoldeb i ddyfarnu apelau o dan y rheoliadau, roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o ran arfer swyddogaethau'r person o dan yr adran hon. Gallai hyn ymdrin a materion megis cysylltu gyda phenaethiaid ysgolion neu sefydliadau eraill (gyda'r bwriad o gynnig cyrsiau astudio i ddisgyblion o ysgolion neu sefydliadau ei gilydd) cyn gwneud penderfyniad ynghylch hawlogaeth.

Mae is-adran (5) yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy Orchymyn, i ddiwygio neu ddiddymu'r seiliau presennol, ychwanegu atynt, a diwygio neu ddiddymu unrhyw ychwanegiadau.

Adran 27 Cyflawni hawlogaethau'r cwricwlwm lleol (adran 33G o Ddeddf Dysgu a Medrau 2002)

Mae'r adran hon yn nodi'r ddyletswydd a osodir ar ysgolion a sefydliadau addysg bellach i gyflawni hawlogaethau cwricwlwm lleol i fyfyrwyr 16 i 18 oed.

Mae'r adran yn darparu bod yn rhaid trefnu bod y cwrs astudio ar gael i fyfyrwr gan, neu ar ran corff llywodraethu ei ysgol berthnasol neu ei sefydliad berthnasol. Mae hyn yn golygu y gellir cynnig cyrsiau astudio o fewn cwricwlwm lleol mewn lleoliadau dysgu gwahanol i ysgol berthnasol neu sefydliad berthnasol y disgybl, er enghraifft gall myfyrwr sy'n mynychu ysgol â chweched dosbarth ynddi ddilyn cyrsiau astudio penodol a ddarperir mewn Sefydliad Addysg Bellach.

Adran 28 Penderfyniad pennaeth ysgol neu bennaeth sefydliad i ddileu hawlogaeth (adran 33H o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000)

Weithiau, bydd angen dileu hawlogaeth myfyriwr i ddilyn cwrs astudio, am resymau iechyd a diogelwch, er enghraifft.

Mae is-adran (1) yn galluogi pennaeth ysgol neu sefydliad i benderfynu, ar seiliau penodedig, i ddileu hawlogaeth myfyriwr.

Mae is-adran (2) yn pennu ar ba sail y gall pennaeth ysgol berthnasol neu bennaeth sefydliad perthnasol myfyriwr benderfynu dileu hawlogaeth myfyriwr. Y seiliau hynny yw iechyd a diogelwch a gwariant anghymesur.

Mae is-adran (3) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau pellach ynghylch gwneud penderfyniadau o dan is-adran (1) gan gynnwys y canlynol:

- (a) y weithdrefn benderfynu;
- (b) darpariaeth ar gyfer apelau i gorff llywodraethu ysgol neu sefydliad neu i berson arall a bennir yn y rheoliadau;
- (c) darpariaeth ynghylch effaith penderfyniad hyd nes y ceir dyfarniad ar apêl;
- (ch) y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn cysylltiad â dyfarnu apêl.

Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i benaethiaid ysgolion a phenaethiaid sefydliadau a phersonau y gosodwyd arnynt y cyfrifoldeb i ddyfarnu apelau o dan y rheoliadau roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru ynghylch arfer swyddogaethau o dan yr adran hon.

Mae is-adran (5) yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy Orchymyn, i ddiwygio neu ddiddymu'r seiliau presennol, ychwanegu atynt, a diwygio neu ddiddymu unrhyw ychwanegiadau.

Adran 29 Cynllunio'r cwricwlwm lleol (adran 33I o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000)

Bydd penderfyniad Gweinidogion Cymru ynghylch pa gyrsiau astudio i'w cynnwys mewn cwricwlwm lleol o dan adran 33A yn dibynnu i raddau helaeth ar y cynhwysedd addysgol lleol. Ychydig iawn o werth fydd cynnwys cyrsiau nad yw ysgolion lleol a sefydliadau addysg bellach yn medru eu cyflenwi.

Yn unol â hynny, mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol bod y rhai sy'n gyfrifol am ddarparu addysg i ddisgyblion 16 i 18 oed yn cynorthwyo Gweinidogion Cymru i gynllunio'r cwricwlwm neu gwricwla lleol ar gyfer ardal benodol awdurdod addysg lleol.

Mae is-adran (1) yn pennu bod yn rhaid i'r personau canlynol gynorthwyo Gweinidogion Cymru yn hyn o beth:

- (a) yr awdurdod addysg lleol y llunnir y cwricwlwm lleol neu'r cwricwla lleol ar gyfer ei ardal;
- (b) corff llywodraethu a phennaeth unrhyw ysgol uwchradd a gynhelir gan yr awdurdod hwnnw;
- (c) corff llywodraethu a phennaeth sefydliad yn y sector addysg bellach sydd wedi'i leoli yn ardal yr awdurdod hwnnw.

Mae is-adran (2) yn diffinio “planning the local curriculum or curricula” fel y broses lle y mae Gweinidogion Cymru'n penderfynu pa gyrsiau astudio i'w cynnwys mewn cwricwlwm lleol. Mae is-adran (3) yn darparu bod Gweinidogion Cymru'n dyroddi canllawiau a chyfarwyddiadau ar gyfer y cyrff a bennir yn is-adran (1) mewn cysylltiad â'u dyletswydd i gynorthwyo Gweinidogion Cymru o dan yr adran hon.

Adran 30 Cyflawni hawlogaethau'r cwricwlwm lleol: cydweithio (adran 33J o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000)

Mae is-adran (1) yn nodi mai amcan yr adran hon yw sicrhau bod y nifer mwyaf o gyrsiau astudio ar gael o fewn y cwricwla lleol.

Mae is-adrannau (2) a (4), yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod addysg lleol, corff llywodraethu ysgol uwchradd a gynhelir a sefydliad addysg bellach i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau amcan yr adran hon.

Mae is-adran (3) yn darparu bod y ddyletswydd i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau amcan yr adran yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny, dyletswydd i geisio ymrwymo mewn trefniadau cydweithredu, lle y mae'r personau perthnasol wedi penderfynu y byddai'n hyrwyddo amcan yr adran i ymrwymo mewn trefniadau o'r fath.

Diffinnir “co-operation arrangement” yn is-adran (5) i olygu trefniant lle y mae unrhyw berson yn darparu cwrs astudio ar ran corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach, neu drefniadau a wneir o dan reoliadau o dan adrannau 26 o Ddeddf Addysg 2002 a 166 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006, sy'n drefniadau cydweithio mwy ffurfiol a allai gynnwys, er enghraifft, sefydlu cyd-bwyllgor.

Mae is-adran (6) yn diffinio “relevant local curriculum” at ddibenion yr adran hon.

Adran 31 Cydweithio: canllawiau a chyfarwyddiadau (adran 33K o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000)

Mae'r adran hon yn ymwneud â'r ymrwymadau i gydweithio a osodir gan adran 33J.

Mae is-adran (1) yn darparu bod awdurdod addysg lleol, corff llywodraethu ysgol uwchradd a gynhelir a chorff llywodraethu sefydliad addysg bellach yn rhoi

ystyriaeth i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru ynglŷn â chyflawni eu dyletswyddau o dan adran 33J.

Mae is-adran (2) yn darparu y caiff canllawiau a ddyroddir o dan is-adran (1) ymwneud â chynnwys trefniadau cydweithredu.

Mae is-adran (3) yn darparu bod yn rhaid i'r personau a grybwyllir yn is-adran (1) gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru ynghylch ymrwymo mewn unrhyw drefniadau cydweithredu.

Mae is-adran (4) yn ei gwneud hi'n glir y gallai cyfarwyddiadau a roddir o dan yr adran hon ei gwneud yn ofynnol i bersonau ymrwymo mewn trefniadau cydweithredu penodol a chânt bennu'r telerau pan ddylid ymrwymo mewn trefniadau o'r fath. Yn achos cyfarwyddyd i ymrwymo mewn trefniant cydweithredu â pharti heblaw Awdurdod Addysg Lleol, corff llywodraethu ysgol neu gorff llywodraethu Sefydliad Addysg Bellach, rhaid peidio â rhoi cyfarwyddyd o'r fath heb gydsyniad y parti hwnnw. Bydd hyn yn cynnwys cyrff eraill sy'n darparu cyrsiau astudio sy'n rhan o gwricwla lleol, er enghraifft, darparwyr hyfforddiant preifat neu gyrff yn y sector gwirfoddol.

Adran 32 Pŵer i ddiwygio meysydd dysgu (adran 33L o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000)

Mae'r ddarpariaeth hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio adran 33A(3). Byddai hyn, er enghraifft, yn caniatáu creu meysydd dysgu newydd.

Adran 33 Y cwricwlwm lleol: dehongli (adran 33M o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000)

Mae'r adran hon yn darparu ystyr y termau amrywiol a ddefnyddir yn y darpariaethau a fewnosodir yn Neddf Dysgu a Medrau 2000 gan y Mesur hwn.

Adran 34 Cwricwlwm lleol: cyfarwyddiadau (adran 33N o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000)

Mae'r adran hon yn ei gwneud yn glir y gellir amrywio neu ddirymu drwy gyfarwyddyd pellach unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru o dan adrannau 33A, llunio cwricwla lleol, 33I, cynllunio'r cwricwlwm lleol a 33K, gweithio ar y cyd.

Adran 35 Cymhwyso darpariaethau cwricwlwm lleol i fyfyrwyr sy'n ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion arbennig neu fyfyrwyr a chanddynt anawsterau dysgu (adran 33O o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000)

Nid yw'r Rhan hon o'r Mesur yn gymwys i ysgolion arbennig na sefydliadau addysg bellach sy'n darparu addysg yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer pobl ag anhawster dysgu. Er hynny, gwneir darpariaeth yn yr adran hon ar gyfer gwneud rheoliadau sy'n cymhwyso darpariaethau o ran cwricwlwm lleol i ddisgyblion sydd dros oedran ysgol gorfodol sy'n ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion arbennig

neu'n fyfyrwyr mewn sefydliadau sy'n darparu addysg yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer pobl gydag anhawster dysgu.

Mae is-adran (1) yn galluogi gwneud rheoliadau sy'n cymhwyso darpariaethau'r cwricwlwm lleol i'r personau sydd dros oedran ysgol gorfodol ac sydd wedi cofrestru mewn ysgol arbennig a gynhelir neu sy'n derbyn y rhan fwyaf o'u haddysg mewn sefydliad sy'n darparu addysg yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer pobl ag anhawster dysgu.

Mae is-adran (2) yn galluogi gwneud rheoliadau o dan is-adran (1) i gymhwyso darpariaethau'r cwricwlwm lleol gydag unrhyw addasiadau sydd eu hangen i gymryd i ystyriaeth, er enghraifft, yr amgylchiadau y mae'r sefydliadau hyn yn gweithredu ynddynt.

Adran 36 Rheoliadau a gorchmynion: y weithdrefn

Mae'r adran hon yn diwygio adran 152 o Ddeddf Dysgu a Medru 2000 er mwyn darparu bod y Cynulliad yn rheoli'r rheoliadau a'r gorchmynion a wneir o dan y darpariaethau a fewnosodir gan y Mesur hwn yn Rhan 2 o'r Ddeddf honno. Y weithdrefn berthnasol yw'r weithdrefn penderfyniad negyddol ym mhob achos ac eithrio pan wneir gorchmyn o dan adrannau 33F(5), 5H(5) neu 33L sydd, oherwydd y byddai'n newid deddfwriaeth sylfaenol, yn cael ei wneud yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

RHAN 3 – GWASANAETHAU SY'N YMWNEUD AG ADDYSG, HYFFORDDIANT A SGILIAU

Adran 37 Gwasanaethau a ddarperir gan ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach

Mae is-adran (1) yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a Sefydliadau Addysg Bellach i ddarparu neu sicrhau "gwasanaethau cymorth i ddysgwyr". Gellir eu cyfarwyddo hefyd i gymryd rhan pan ddarperir gwasanaethau cymorth i ddysgwyr gan rywun arall.

Mae is-adran (3) yn rhoi ystyr eang i'r term "gwasanaethau cymorth i ddysgwyr". Yn unol â hynny, gall fod angen darparu amrywiaeth eang o wasanaethau o dan yr adran hon.

Mae is-adran (4) yn gosod y materion ategol y caniateir eu cynnwys mewn cyfarwyddyd gwasanaethau cymorth i ddysgwyr o dan is-adran (1). Er enghraifft, gall fod yn ofynnol i'r corff a gyfarwyddir roi sylw i ganllawiau a ddarperir gan

Weinidogion Cymru ynghylch darparu gwasanaeth penodol o ran cymorth i ddysgwyr.

Mae is-adran (5) yn nodi y caiff cyfarwyddyd o'r fath ymwneud â dosbarth penodol o bersonau ifanc, caiff hefyd ddarparu ar gyfer dosbarthiadau gwahanol o bersonau a cheir ei amrywio neu ei ddirymu drwy gyfarwyddyd diweddarach.

Mae is-adran (5A) yn darparu ar gyfer amhleidioldeb pan fydd gwasanaethau cymorth i ddysgwyr yn rhoi cyngor a gwybodaeth. Mae'n darparu bod yn rhaid rhoi gwybodaeth mewn modd amhleidiol a bod yn rhaid cynnig cyngor yr ystyrir ei fod yn hybu budd pennaf y person ifanc ac nad yw'n ceisio hybu buddiannau neu ddyheadau unrhyw ysgol neu sefydliad neu berson neu gorff arall yn erbyn buddiannau gorau'r person ifanc o dan sylw.

Adran 38 Dyletswyddau cyrff llywodraethu

Mae'n ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach gydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir o dan adran 37.

Adran 39 Diwygiadau i Ddeddf Dysgu a Medrau 2000

Mae'r adran hon yn diwygio Deddf Dysgu a Medrau 2000.

Mae'r diwygiadau a wneir gan yr adran hon i adran 126 o'r Ddeddf honno'n sicrhau bod y gofynion ynghylch trosglwyddo gwybodaeth, a materion perthynol, a osodir ar sefydliadau addysgol gan yr adran honno mewn perthynas â gwasanaethau cymorth i ieuencid hefyd yn gymwys yn achos gwasanaethau cymorth i ddysgwyr. Er enghraifft, petai sefydliad addysg bellach yn darparu gwasanaethau cymorth i ddysgwyr ar gyfer disgybl cofrestredig, gallai fod yn ofynnol i ysgol y disgybl ddarparu (gyda chydysyniad y rhiant) yr wybodaeth berthnasol am y disgybl, megis ei gefndir addysgol.

Mae'r diwygiadau a wneir i adran 127 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 yn sicrhau bod gan Arolygiaeth ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn) y pŵer i drefnu arolygiadau ar y ddarpariaeth o wasanaethau cymorth i ddysgwyr.

Adran 40 Y ddogfen llwybr dysgu

Mae'r adran hon yn darparu bod pob "disgybl perthnasol" neu "fyfyrwr perthnasol" yn cael dogfen sy'n cofnodi ei lwybr dysgu. Mae llwybr dysgu disgybl neu fyfyrwr yn cynnwys y cyrsiau astudio cwricwlwm lleol y mae ganddo'r hawlogaeth i'w dilyn o dan y darpariaethau a fewnosodir gan Rannau 1 neu 2 o'r Mesur hwn ynghyd â'r gwasanaethau cymorth i ddysgwyr a ddarperir ar ei gyfer o dan adran 37 o'r Mesur hwn. Adwaenir y cofnod fel "y ddogfen llwybr dysgu". O dan yr adran hon, dyletswydd pennaeth ysgol neu bennaeth Sefydliad Addysg Bellach yw cynhyrchu a diweddarau dogfennau llwybr dysgu.

Adran 41 Llwybrau dysgu: dehongli

Mae'r adran hon yn diffinio termau a ddefnyddir yn adran 38.

Adran 42 Darparu gwybodaeth am y cwricwlwm

Mae'r adran hon yn mewnosod adran newydd 45A yn Neddf Addysg 1997. Mae'n caniatáu i ddarparwyr gwasanaethau gyrfa i'w gwneud yn ofynnol i ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach roi gwybodaeth iddynt am y cwricwlwm.

RHAN 4 – AMRYWIOL AC ATODOL**Adran 43 Rheoliadau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cwricwlwm lleol**

Ar hyn o bryd, tueddir drafftio deddfwriaeth addysgol ar y dybiaeth y bydd plentyn yn derbyn y rhan fwyaf o'i addysg ar un safle. O dan y cwricwla lleol a lunnir o dan Rannau 1 a 2 o'r Mesur hwn, yn aml nid felly y bydd hi. Er enghraifft, gallai plentyn dderbyn cyfran sylweddol o'i addysg mewn ysgol wahanol i'r un y mae wedi'i gofrestru ynddi.

Diben yr adran hon yw caniatáu i reoliadau gael eu gwneud fel y bydd y corff presennol o ddeddfwriaeth addysgol yn gymwys mewn ffordd briodol mewn perthynas â phlant sy'n derbyn eu haddysg mewn mwy nag un sefydliad addysgol. Er enghraifft, gallai rheoliadau o dan yr adran hon bennu, at ddibenion deddfwriaeth sy'n rheoli cyfarfodydd gyda rhieni plentyn, bod plentyn i'w drin fel disgybl cofrestredig mewn mwy nag un ysgol er mwyn i'r rhieni gael yr hawl i gyfarfod â'r rhai sy'n gyfrifol am addysg y plentyn yn y ddwy ysgol.

Adran 44 a'r Atodlen Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol

Mae'r adran hon yn cyflwyno'r Atodlen sy'n cynnwys mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol.

Adran 45 Gorchmynion a rheoliadau

Mae'r adran hon yn darparu bod unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau neu orchymyn o dan y Mesur yn arferadwy drwy offeryn statudol. Mae hefyd yn darparu y caniateir dileu unrhyw reoliadau a wneir o dan y Mesur drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Adran 46 Cychwyn

Mae'r adran hon yn darparu bod y Mesur yn cael ei ddwyn i rym drwy orchymyn Gweinidogion Cymru. Mae'n caniatáu i'r Mesur gael ei ddwyn i rym ar adegau gwahanol ar gyfer dibenion gwahanol.

Adran 47 Enw byr

Mae'r adran hon yn enwi'r Mesur – Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008.

10. Asesu'r Gystadleuaeth

- 10.1 Ymgwymerwyd â'r prawf ffitro cystadleuaeth mewn perthynas â'r mesur arfaethedig. Mae'r profion ffitro wedi dangos risg isel o effaith niweidiol ar y gystadleuaeth a dim budd sylweddol rhagweladwy o du'r gystadleuaeth.

11. Adolygu ar ôl Gweithredu

11.1 O ganlyniad i'r Mesur, bydd y polisi Llwybrau Dysgu 14-19 yn dod yn rhan o'r gyfundrefn weithredu genedlaethol. Bydd yn dod yn elfen allweddol o weithgarwch addysgol prif ffrwd yng Nghymru. Bydd felly'n dod yn rhan o'r prosesau adolygu a gwerthuso a ddefnyddir ar gyfer y sector addysg gyfan. Bydd mewnosod y polisi o fewn y systemau adolygu a gwerthuso presennol yn hanfodol i'w lwyddiant.

